# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 340

Mehefin 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

## AR Y FFORDD




Dydd Sadwrn y 18fed o Fehefin fe gychwynodd 7 gŵr ifanc o ardal Aberystwyth a Bryste seiclo 1,000 o filltiroedd mewn 10 diwrnod, gan obeithio codi £10,000 ar gyfer 4 elusen. Mae'r tîm yn bwriadu codi'r arian ar gyfer Apêl Elain. Merch fach leol ydy Elain James, sydd yn dioddef o afiechyd y galon (congenital heart disease) ac er nad yw ond 14 mis oed, mae wedi gorfod cael nifer o lawdriniaethau a bydd rhaid cael un arall yn yr wythnosau nesaf.

Mae Apêl Elain yn codi arian ar gyfer pedair elusen sydd wedi helpu Elain ers ei genedigaeth: Ambiwlans Awyr Cymru, The Leon Heart Fund, Wallace and Gromit's Grand Appeal a Ronald McDonald House Bristol.

Mae'r saith aelod yn cynnwys edwar bachgen lleol - Andrew Simkins o Waunfawr; Dylan Lewis o Dre'r-ddôl; Dafydd Erwan Davies o Landre a Clint Middleton o Maesafallen, Bow Street; ail, trydydd, pumed a chweched o'r chwith.. Yr aelodau eraill ydy James Bradbury-Willis o Aberdyfi, Martin White o Gernyw a Simon Blay o Fryste.

Maent eisoes wedi bod yn ymarfer yn galed ac wedi trefnu llawer o waith codi arian. Gyda ychydig o wythnosau yn unig i fynd, mae'r tîm angen eich help i gyrraedd eu targed! Os hoffech chi eu noddi, neu am fwy o wybodaeth am y daith yn cynnwys lluniau a 'blogio', ewch i'w gwefan www.bristoltobarcelona.co.uk. Pob lwc iddynt!



## Trosglwyddo cwiltiau

Merched Grŵp Crefft Llandre yn trosglwyddo cwiltiau bychain i Sue Wilson a Liz Coles ym Methlehem Llandre. Mae'r aelodau yn cwrdd yn wythnosol yn ystod y gaeaf, ac eleni eu prosiect oedd gwneud cwiltiau i'r Prosiect Linus - prosiect sydd wedi deillio o Unol Daleithiau'r America. Bydd y cwiltiau, a'r capiau yn cael eu trosglwyddo at anghenion plant a phobl ifainc sydd â salwch hir dymor, yn dioddef o drawma, neu i fabanod sydd wedi cael eu geni yn gynnar. Bydd y cwiltiau yn mynd i'r ysbytai lleol ac i lochesi merched, a chaiff pob dioddefwr berchnogaeth bersonol o'r cwiltiau yma. Sue Wilson a Liz Coles yw'r ail a'r drydedd o'r chwith.




## Pencampwr Cymru

Gruff Lewis, Llys Aeron, Penrhyn-coch, pencampwr rasio ffordd newydd Cymru! Er mai dim ond ers diwedd 2009 y dechreuodd Gruff seiclo fe ddaeth yn ddiweddar yn Bencampwr Rasio Ffordd Cymru 2011 yng Nghwm Ogwr. Llongyfarchiadau mawr iddo a dymuniadau gorau i'r dyfodol!

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 340 | Mehefin 2011

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MEDI 1 a MEDI 2 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MEDI 15

**MEHEFIN 24** Nos Wener Noson gwin, caws a chân gyda Chôr Meibion Caron ac Ysgol Gynradd Tal-y-bont a Pedwarawd Taliesin am 7.30 yn Eglwys St. Pedr, Elerch. Tocynnau: £6

**MEHEFIN 25** Pnawn Sadwrn Garddwest fawreddog a barbeciw gan Eglwys Sant Mihangel, Llandre yn y Parc Chwarae; agorir gan y Parchg Peter Jones am 3.00.

**MEHEFIN 26** Dydd Sul Marchogaeth er budd Neuadd y Penrhyn Ceffyl cyntaf: 9.30; Ceffyl olaf 11.00 a.m. 10 milltir ar gyfer pob gallu, o'r ieuenga i'r daith gyflymach i'r rhai mwy profiadol; taith fer 5 milltir hefyd ar gael. Ffi mynediad: £10 ar y diwrnod. Dechrau o fferm Cwmcanol, Cwmsymlog. Manylion cyswllt: 07515 494 710

**GORFFENNAF 1** Nos Wener Noson goffi flynyddol Noddfa yn y festri

**GORFFENNAF 2** Dydd Sadwrn Te Hufen a Mefus yn Neuadd Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch rhwng 3.00-5.00

**GORFFENNAF 5** Nos Fawrth Cwmni Drama Licris Olsorts yn cyflwyno 'Ni'n dwy' a 'Y sics ten o Euston' yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 8.00

**GORFFENNAF 9** Dydd Sadwrn Taith o ardal Treffynnon, Sir y Fflint yng nghwmni Gron Ellis, Treffynnon

**GORFFENNAF 13** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Noddfa, Bow Street am 5.30

**GORFFENNAF 18** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r haf

**AWST 6** Dydd Sadwrn Sioe Capel Bangor a'r cylch. Am fanylion cysylltwch â Nerys ar 01970 880 691 neu http://www.capelbangorshow.co.uk

**AWST 20** Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch

**MEDI 3** Dydd Sadwrn Sioe Rhydypennau

**MEDI 3** Dydd Sadwrn Sioe Trefeurig

**MEDI 5** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ail agor ar ôl gwyliau'r haf

**MEDI 7** Nos Fercher Pwyllgor Sioe Capel Bangor manylion oddi wrth Nerys Daniel 880691

**MEDI 9** Nos Wener Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Felin-fach am 7.30, Bydd manylion ar wefan Cered yn fuan. www.cered.org

**MEDI 9** Nos Wener Swper Haf Bach Mihangel Capel Y Garn yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre am 6.00

**MEDI 10** Pnawn Sadwrn Te prynhawn yng Nghartref Tregerddan am 2.30

**MEDI 12** Nos Lun Noson agoriadol Merched Y Wawr Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau am 7.30

**MEDI 13** Nos Fawrth Cyfarfod blynyddol y Tincer yn Noddfa am 7.00

**MEDI 21** Nos Fercher Noson yng nghwmni Russell Jones — noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn am 7.30 yn festri Horeb

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.


Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.


**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Mai**

**£25** (Rhif 81) Gordon Jones, Y Wern, Bow Street.
**£15** (Rhif123) Gwen Morgan, Y Bynglo, Cwmrheidol
**£10** (Rhif 38) Mrs D M Stanleigh, Dolfawr, Cwmrheidol.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan gan Eleri Roberts, Dewi Hughes a Ceris Gruffudd yn dilyn ymarfer Côr Cantre'r Gwaelod nos Sul y 22ain o Fai.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Bryn Meillion, os am fod yn aelod. Am restr o Gyfeillion y Tincer 2010/11 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

## Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
Cyngor Cymuned y Borth £50
Cyngor Cymuned Tirymynach £300
Cyngor Cymuned Trefeurig £250
Cyngor Cymuned Melindwr £225
Cyngor Cymuned Genau'r —glyn £200
Clwb Cylch Cinio Aberystwyth £100

Y TINCER
ytincer@googlemail.com

## GOGINAN

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Steven Jones, Yr Hafan, Cwmbrwyno sydd wedi derbyn dyrchafiad i Is-Gorporal yn y fyddin.

Hefyd i Ann Bennet, Arfon House ar gael y fraint o dorri'r dywarchen gyntaf yn y datblygiad diweddaraf yn Ysbyty Bron-glais. Cafodd Ann ei dewis gan ei bod yn gogydd yn yr ysbyty ers deugain o flynyddoedd, y weithwraig hiraf.

## 30 Mlynedd 'Nôl



*Tîm Rygbi Ysgol Gynradd Trefeurig a enillodd gwpan rygbi yr ysgolion llai am yr ail dro eleni. Aelodau'r tîm yw: Shaun a Steffan Robinson, Owen a Daniel Simkins, Dafydd Morgan, Stuart Mee, Dylan Hughes a Sharon Williams. Llongyfarchiadau calonnog iddynt, ac i'w dwy athrawes ymroddedig Mrs Megan Creunant Davies a Mrs Della Williams. (o Dincer Mehefin/Gorffennaf 1981)*



*Rhai o aelodau Cyngor Cymuned Tirymynach yn cael hoe haeddiannol ar ôl bod wrthi yn clirio rhan o'r llwybr cyhoeddus sy'n arwain o Dregerddan heibio'r Hen Gaer ac i lawr i Benrhyn-coch. O'r chwith: Y Cynghorwyr Doris Jones, Vernon Jones, Byron Jones, Lilian Magor, Nia Davies ac Emyr Davies. Nid yw Nia (merch Mr Emyr Davies) yn aelod o'r Cyngor Cymuned, ond bu'n help mawr y noson honno i'r Cynghorwyr blinedig. Llun: Tegwyn Jones (o Dincer Mehefin/Gorffennaf 1981)*

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cydymeimlad

Estynnwn ein cydymdeimilad dwysaf â Hywel Ellis a'r teulu yn Hywelfan ar farwolaeth ei ewythr Ken Williams ym Mhenrhyn-coch.

### Dewis i feirniadu

Llongyfarchiadau calonog i Dafydd Morris, Neuadd Parc, ar gael yr anrhydedd o feirniadu y Cobiau Cymraeg Adran C yn Sioe Frenhinol Cymru Llanelwedd 2012.



*Yn y llun gwelir pedair o ferched ardal y Tincer a fu'n cystadlu fel rhan o dîm hoci Ysgol Penweddig yn nhwrnament Cwpan Hoci Cymru o dan 18 a gynhaliwyd yn Wrecsam yn ddiweddar. Aeth y tîm drwodd i'r rownd gyn-derfynol. Y merched yw - Gwenno Morris, Beca Williams (capten y tim) Danielle Pryce ac Anna Evans.*

## DOLAU

### Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Julian ac Andrea ar enedigaeth merch fach, Iola Sophie May, chwaer i Sam ac wyres gyntaf i Alun a Margaret Rees, Seintwar.

Newyddion hapus hefyd o Madryn gan fod Dafydd a Mair Evans wedi dod yn Dad-cu a Mam-gu am y tro cyntaf; Eleri a Xavier wedi cael merch fach, Erin Betsan. Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Pawb wrth eu bodd.

### Cyd-ddigwyddiad?

Mae tri o fechgyn y Dolau yn byw o fewn llai na 10 milltir i'w gilydd yn ardal Caerdydd, ac mae pob un yn awr yn dad i fachgen a merch; David a'i wraig Ruth, Wyn a Martina ag yn awr Julian ag Andrea. Mae rhieni y bechgyn yn y Dolau i gyd yn hapus iawn nawr. Bydd y plant yn debyg o fynychu'r 'un ysgol Gymraeg yn yr ardal pan ddaw'r amser.

**HYSBYS**

**CARTREF TREGERDDAN**

**Te Prynhawn
yn y Cartref
Dydd Sadwrn, Medi 10, 2011
am 2.30 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb**

# Y BORTH

## Ffilm leol

Mae gan Stuart Evans ( Cliff House ) ffilm fydd yn cael ei dangos yn Y Box yng Nghanolfan y Celfyddydau ym Mehefin -18, Gorffennaf 6, 11, 16, 21, 26, 31 ac Awst 5, 10, 15 a 20. Cynnwys y ffilm yw saith tirlun; golygfeydd o'r Borth a Llandre saethwyd yn y 90au.

## Cylch Meithrin y Borth

Cynhaliodd Cylch Meithrin y Borth ddiwrnod agored llwyddiannus ar Fai 24ain a'i gyfunao â dathliad pen blwydd y Mudiad yn 40 oed. Yn y llun gwelwn blant y Cylch Jodie ac Eric gyda chynorthwyydd y Cylch Shan Bailey ac Ewan, Summer a Mark gyda arweinydd y Cylch, Cath Reeves. Roedd y digwyddiad yn gyfle i arddangos eu hardal chwarae newydd a gwahodd pobl yr ardal i'r Cylch i fwynhau paned a theisen. Hoffai'r Cylch ddatgan eu diolch i'r gymuned leol ac i Ysgol Craig yr Wylfa am eu cefnogaeth parhaol. Derbyniwyd rhoddion gan Nisa, Family Stores, Oriel Tir a Môr, The Art House, siopau'r Hubbards, y Brodyr Davies (y paentwyr), yn ogystal ag aelodau'r gymuned sydd wedi rhoi o'u hamser i helpu gyda'r ardal chwarae. Diolch arbennig i Becky Green hefyd am godi £200 drwy wneud naid bynji yn Aberystwyth .

## Pen blwydd hapus hwyr!

Nain - Iona Jones, Bodfor, y Borth yn dathlu ei phen blwydd yn 80 mewn parti sypreis yn Sir Fôn yn gynharach yn y flwyddyn. Daeth pump ar hugain o'i theulu ynghyd i ddymuno'n dda iddi a chafwyd cyfarchion oddi wrth ei hŵyr, Tom dros Skype o Beijing!

## Canolfan Teulu y Borth

Cynhaliwyd cwrs dysgu Cymraeg o dan ofal Zoe Pettinger bob dydd Mawrth yn Neuadd Gymunedol y Borth hyd at Fehefin y 7fed. Roeddynt yn sesiynau hwyliog, gyda llawer o ganu a gêmau. Mae Canolfan y Teulu ar agor bob dydd Mawrth yn y Neuadd rhwng 09.30-15.00 o'r gloch. Mae croeso cynnes i rieni, Mamau a Thadau-cu a gofalwyr plant bach.

## Y Morglawdd – y diweddara'

Braf yw nodi fod y gwaith 'ar amser' ac o fewn y cyllid. Mae Ray Jones, rheolwr y gwaith yn awyddus i ddiolch i drigolion y Borth am eu hamynedd a'u hewyllys da. Fel arwydd o'i werthfawrogiad mae B.A.M. wedi cyfrannu i'r gymdeithas mewn gwahanol ffyrdd e.e. talu am lyfryn y Carnifal, paratoi fflôt (edrychwn ymlaen i weld hwnnw!) a noddi cystadleuaeth gwneud poster am y Morglawdd i blant Craig yr Wylfa.

Ar wahân i'r cerrig anferth o Norwy (hapus gôf am Charlie Rock), cerrig Cymreig fydd yn ein hamddiffyn; cynyrch chwareli Ystradmeurig, Llanfair-ym-Muallt a Chefn Grainiog. Heddiw (Mehefin 10fed) mae yna bedwar Jac Codi Baw yn cwblhau y Sarn dros dro, sy'n golygu eu bod yn gallu dechrau ar y rîff o fewn ychydig amser.

Edrychwn ymlaen at fisoedd yr Hâf a'r Hydref a diwedd ar y rhan gyntaf yma o'r Morglawdd.

## Mrs.Pam Gibbs

Galar sy'n dilyn y newydd am farwolaeth Mrs. Gibbs.Gwaaig arbennig.

Er yn ei nawdegau, roedd wastad i'w gweld yng ngweithgareddau'r pentre; gwisgai bindi, dysgodd Gymraeg,darllenai'n frwd, cerddai'n ddiflino, ymarferai Yoga ac yn Gatholiges bybyr.

Hi oedd gweddw y diweddar Squadron Leader Gibbs, mam Sarah Pugh y Friendship a Mam-gu Jenks, Emma, Lizzie, Amy a Trystan. Bydd yr angladd ar ddydd Gwener Mehefin yr 17eg yn Eglwys Gatholig Aberystwyth. Cydymdeimlwn â'r teulu oll a'u llongyfarch am y gofal gafodd Pam ganddynt.



## 'Race 4 Life'

Ar ddydd Sul 15fed o Fai aeth criw o blant o Ysgol Sul Eglwys Sant Matthew i gymryd rhan yn y ras flynyddol i godi arian i Ymchwil Cancr. Noddwyd with o'r merched i rhedeg, sef Hattie, Lauren, Megan, Hannah, Eleanor, Finlay, Toohey a Mackenzie, ond daeth y rhan fwyaf o'r ysgol Sul i gefnogi ac yn wir ymunodd yr holl ferched yn ras (rhai'n rhedeg, eraill yn cerdded) rhai mor ifanc â thair. Codwyd cyfanswm o £1,000 tuag at yr elusen. Diolch yn fawr i'r bechgyn hefyd am ddod i gefnogi. Ar ôl dychwelyd i'r Borth cafwyd cinio bwffe a phnawn gymdeithasol. Llongyfarchiadau i bawb! **J.C.**

## Henoed

Ar ddydd Iau y 5ed o Fai, aeth Clwb Henoed y Borth ar eu gwibdaith Gwanwynol i Henllan i gwrdd â Mr. Bill Thompson,perchennog a churadur capel a adeiladwyd gan garcharorion rhyfel o'r Eidal. Rhoddodd sgwrs ac aeth â ni o gwmpas y capel a'r gwersyll. Roedd y lle yn dyst i ffydd anhygoel y carcharorion rhyfel ac yn ymweliad gwerth chweil iawn. Yna ymlaen i ymweld â'r Felin Wlân Genedlaethol i weld eu harddangosfa a chael cinio blasus tu hwnt. Hoffwn ddiolch i Mr. Jones ein gyrrwr am drip cofiadwy arall. Edrychwn ymlaen at y nesa sef i taith i Gaer mis hwn. J.C.

## Gwobr!

Mewn cynhadledd ym Mhortmeirion yn ddiweddar derbyniodd George Romary (Rock House) wobr hynod, sef Gwobr Cyfraniad Personol Arbennig. Yn y gynhadledd a gynhaliwyd gan Drenau Arriva Cymru- Mabwysiadu Gorsaf, dim ond un o"r gwobrau yma oedd ar gael am y flwyddyn a George gafodd hi! Mae George wedi gweithio'n ddiflino yn llywio criw o wirfoddolwyr dros rhai blynyddoedd erbyn hyn (gyda Jo









**Bois y Graig**

Dyma lun hwyliog iawn o Bois y Graig wedi iddynt ddathlu buddugoliaeth 2-0 yn erbyn Penuwch Snipes yng Nghyngrair Cynradd Pêl-droed Aberystwyth. Da iawn nhw!

ei wraig a John Toller, Ynys-las wrth ei ochr bob amser). Mae'n haeddu hyn a mwy!

Erbyn hyn mae'r gwaith adeiladu yn yr Orsaf ar ben a'r agoriad swyddogol ar ddigwydd. Casglwyd llawer o hen bethau rheilffordd yn ogystal â memorabilia y pentre yn barod ar gyfer creu yr arddangosfa. Mae angen gwirfoddolwyr i edrych ar ôl yr amgueddfa dros wyliau'r hâf-os oes diddordeb gallwch gysylltu â George ar 871850. Bydd ei wobr - cloc arbennig, yn cael ei arddangos yno hefyd!

**Deuawdwyr**

Llongyfarchiadau i Mared Pugh-Evans ar ddod yn drydydd gyda Emily o Ben-uwch ar y ddeuawd bl.7-9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe a'r cylch.

# Artist y Mis - Stuart Evans

Roedd fy nhad yn blismon, felly fe gawsom fel teulu ein symud yn gyson, e.e. Cydweli, Llanelli a Chaerfyrddin. Yno fe es i Ysgol Ramadeg Queen Elizabeth a rhannu yr un dosbarth C.S.E. maths â Ray Gravell. Gwrthododd ein hathro i ni sefyll yr arholiad hyd yn oed, roeddem ni'n dau mor anobeithiol!

O'r ysgol es i i'r Cambridge Institute of Education a chael B.Ed. mewn Celf.Wedi graddio cefais T.B. ac o'r herwydd roedd dysgu'n amhosib-felly cefais flwyddyn heb waith a chyfle i grwydro galerïau Llundain- cyfnod anodd ond gwerthfawr. Wedi gwella, cefais swydd fel 'security guard' yn y Royal Academy a chyfle arall i grwydro o amgylch Meistri y byd Celf am ddim. Ardderchog, ond roeddwn i am ddod nôl i Gymru a byw ar bwys y môr. Yn '76 cefais swydd yn Amgueddfa Ceredigion a byw gyda chyd artistiaid yng Nghapel Bangor. Yn eu plith oedd Jenny Fell (sy'n byw yn y Borth) a Bob Meyrick (sydd nawr yn bennaeth yr Ysgol Gelf). Roedd dau ddylanwad ar fy ngwaith ar y pryd, Jenny, a gychwynnodd fy niddordeb mewn 'Lino cuts' a Gwenllian Ashley a'm cefnogodd i ddatblygu fy nghelf. Tra yn yr Amgueddfa, gwelais sawl llun o longau ac ar eu cefnau, wybodaeth am enw'r Capten, a'r Llong a'r cwmni a.y.y.b.. Penderfynais symud y wybodaeth o'r cefn a'i roi ar flaen y llun-profodd hyn yn eitha llwyddiannus. Wedi creu nifer o 'lino cuts' am lefydd glan môr, penderfynais neud rhai am lefydd fel Tregaron a'u eliffant enwog a'r gŵr a gladdodd ei goes yn Ystrad Fflur.

Redd 'gofod' fy arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol yn brofiad pleserus wrth imi gydweithio â'r bardd Elin ap Hywel —hi â'r geiriau a minnau â'r lluniau.


Y dylanwadau cynnar arnaf oedd Degas a Munch ond erbyn hyn Joseph Cornell a Jim Ede yw'r rhai pwysig. Yn y cyfnod hapus yma o'm bywyd, rwy'n gweithio pedwar diwrnod yn yr Amgueddfa ac un yn yr Ysgol Gelf yn astudio-cyfuniad hapus sy'n rhoi i mi y gorau o'r gorffennol a holl egni'n presennol.



**Plant Dewi**

Roedd plant Dewi yn hynod falch o dderbyn rhodd caredig iawn o £200 gan Eglwys St. Mihangel, Llanfihangel Genau'r-glyn. Cynhaliwyd digwyddiadau codi arian llwyddiannus iawn gan aelodau'r eglwys oedd yn caniatau rhoi rhodd mor hael. Trefnodd Mrs. Lis Collinson ei thaith gerdded flynyddol i weld yr eirlysiau, er budd elusen blant yr esgobaeth. Yn ogystal, cynhaliwyd digwyddiad arall adeg y Grawys, sef cwrdd am ginio'r Grawys a gwrando ar siaradwr ,sef Gweithiwr Prosiect Plant Dewi yn sôn am ei gwaith.

Yn y llun, gwelir Catrin Evans Gweithiwr Prosiect Plant Dewi gyda rhieni a gweithwyr Canolfan Deulu y Borth, sydd yn un o brosiectau Plant Dewi, hefyd Lis Collinson, Sue Jenkins, Doreen Haggar ac Avril Thomas.




CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

ytincer@googlemail.com

# LLANDRE

### Croeso

Croeso i Landre i Endaf a Siwan Griffiths a'u merch fach Megan Lois sydd wedi symud i Trafford House o Ffordd y Gogledd, Aberystwyth. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

### Cyfarfod Sefydlu'r Parchg Peter Owen Jones

Cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Parchg Peter Owen Jones, Nos Lun Mai 16eg am 7.00 o'r gloch yn Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen. `Roedd y croeso yn gynnes a'r Eglwys yn orlawn gyda nifer fawr o glerigwyr o ogledd Ceredigion ynghyd â chlerigwyr o Eglwys flaenorol Peter yn Ne Sir Benfro lle bu yn Giwrad. Mae Peter a'i wraig Carol a'i ferch ddeg oed Ellen eisoes wedi ymgartrefu yn y Ficerdy ym Maes y Garn gyda Ellen yn setlo i mewn yn Ysgol Gynradd Plas-crug.

Ganwyd ef yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr yn fab i dad a oedd yn siarad Cymraeg a mam Seisnig (y mae Peter wrthi'n gloywi ei Gymraeg) a graddiodd mewn electroneg. Treuliodd sawl blwyddyn yn gweithio mewn diwydiant cyn ymateb galwad ganol-gyrfa a'i arweiniodd i hyfforddi mewn coleg diwinyddol yn Llundain am dair blynedd. Yna bu Peter yn gurad mewn gofalaeth tair eglwys yn Hubberston, Sir Benfro am dair blynedd.

Cafodd Peter ei sefydlu yn Offeiriad gyda gofal dros Eglwysi San Mihangel, yn Llandre, Dewi Sant, Tal-y-bont ac Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen.

Roedd y cyfarfod yng ngofal y Parchg Ddoctor Will Strange Archddiacon Aberteifi a'r Parchedig Andy Herrick, Ficer y Santes Ann, Penparcau. Y Parchg Herrick yw'r Deon Gwlad dros dro yn ystod salwch y Parchg John Livingstone.



Roedd gwragedd Eglwys Sant Mihangel, Llandre wedi paratoi te ar gyfer yr ymwelwyr o Dde Sir Benfro yn Neuadd Rhydypennau cyn y cyfarfod sefydlu a chafwyd gwledd yn dilyn y cyfarfod sefydlu wedi ei pharatoi gan chwiorydd Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen mewn pabell bwrpasol wedi ei chodi ger Eglwys Llangorwen.


Yn ddiau bydd y gymuned yn elwa o'i garedigrwydd, ei egni, ei ysbrydoliaeth a'i arweiniad yn y blynyddoedd i ddod. Mae Peter yn awyddus iawn i ddod i adnabod pobl yr ardal ac felly mae ef wedi cytuno i agor yr arddwest flynyddol Ddydd Sadwrn, Mehefin 25ain am 3yp ym Maes Chwarae Llandre

### Cerddor dawnus

Llongyfarchiadau i Seren Powell-Taylor, Troed-y-bryn ar ddod yn gyntaf ar yr unawd chwythbrennau a hefyd cyntaf fel rhan o ensemble offerynnol Ysgol Tal-y-bont.

### Llwyddiant llenyddol

Llongyfarchiadau mawr iawn i Dylan Huw Edwards ar ennill cystadleuaeth Barddoniaeth Blwyddyn 10/11 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertawe a'r Fro ac yn Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch. Daeth ar y brig hefyd yng nghystadlaethau Barddoniaeth a Rhyddiaith y Rotary, Aberystwyth. Y Beirniad yn Eisteddfod yr Urdd oedd Aneirin Karadog ac mae'r gerdd i'w gweld yn y gyfrol *Cyfansoddiadau.*



### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â D. Bryan James, Dolhuan, ar farwolaeth sydyn ei wraig Dr Eleanor M. James ar Fehefin 15.

### Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Lleucu Roberts am ennill gwobr Gymraeg Tir Na N-og categori uwchradd am ei nofel *Stwff Guto S. Tomos* (Y Lolfa) — dyddiadur bachgen pedair ar ddeg oed sy'n byw mewn teulu anghonfensiynol. Yn frodor o Landre mae Lleucu yn byw gyda'i theulu yn Rhostryfan, ger Caernarfon ers pymtheng mlynedd. Dyma'r ail dro iddi ennill y wobr hon.



Chwith : Parchedig Andy Herrick Ficer y Santes Ann Penparcau; canol – Y Parchg Peter Jones, dde Y Parchg Ddoctor Will Strange, Archddiacon Aberteifi.

### Mrs Gladys James, Bronberllan

Ar 17eg Mawrth 2011 bu farw un o drigolion hynaf y pentref, sef Mrs Gladys Susannah Jones, Bronberllan. Bu farw yn Ysbyty Bron-glais a hithau yn 98 oed.

Fe'i ganwyd yn un o wyth o blant i Henry a Susannah Richards, Rhydycochiaid, Trawsgoed. Mynychodd Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn, ond gadawodd yno pan yn 14 oed i gynorthwyo ei rhieni a'r teulu ar y fferm. Adeg y rhyfel bu croeso mawr i ifaciwis o Lundain ar yr aelwyd. Roedd yn hoff iawn ac yn dda am goginio ac roedd yn hynod grefftus gyda'i dwylo. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Rhydyfagwyr yr adeg hynny.

Priododd ag Ivor Jones, Bronberllan, Llandre yn Hydref 1954, ac yno y bu hi a'i phriod yn byw ar hyd eu bywyd priodasol, ac yno y bu hi hyd y diwedd er iddi golli ei phriod flynyddoedd yn ôl.

Wedi priodi bu'n gweini mewn nifer o westai yn Aberystwyth. Hyd yn ddiweddar bu'n ffyddlon iawn yng Nghapel y Garn, Bow Street a hefyd yn aelod o gangen Llanfihangel Genau'r-glyn o Ferched y Wawr. Roedd hefyd yn gefnogol i bopeth arall yn y pentref. Bu ei ffrindiau a'i chymdogion yn garedig iawn wrthi ar hyd y blynyddoedd ac yr oedd yn ddiolchgar iawn am hyn.

Bu'r angladd yng Nghapel y Garn ddydd Gwener, 25ain o Fawrth, a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent y capel. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchg Wyn Rh. Morris.

Dymuna'r teulu ddiolch i wragedd y Capel am baratoi'r te, i staff Plas Cwmcynfelin am eu gofal yn ystod ei arhosiad byr yno ac i C. Trefor Evans am ei drefniadau trylwyr ac urddasol. Diolch hefyd am y cyfraniadau tuag at Gapel y Garn, a Chlwb y Deillion a Rhannol Ddall, Aberystwyth.

### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus a phob dymuniad da i Dei Evans, Ruel Isaf ar ddathlu ei ben blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

**Eglwys Sant Mihangel, Llandre**

Prynhawn o hwyl a chymdeithasu

**Garddwest Fawreddog a Barbeciw**

yn y Parc chwarae

**Dydd Sadwrn, Mehefin 25ain 2011**

Agorir yr arddwest gan Y Parchedig Peter Jones am 3 o'r gloch

*Ymunwch yn yr hwyl a'r sbri. Dewch a'r teulu, ffrindiau a chymdogion gyda chi.*

GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Garth
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 820385
Ebost: glenwen.morgans@btopenworld.com

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR






## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Rhydian Davies, Ceunant, y pêl-droediwr ieuanc, a enillodd gap drwy chwarae i dîm Cymru o dan 16 yn erbyn gwlad Pŵyl. Derbyniodd y cap oddi wrth Ian Rush a Gary Speed, ym Mharc y Scarlets diwrnod ffeinal Cwpan Cymru.

Y penwythnos canlynol cafodd Rhydian ei wahodd i Latham Park yn y Drenewydd i seremoni gwobrwyo Pêl-droed Cymunedau Cymru. Yno y derbyniodd dlws chwaraewr y flwyddyn dros ganolbarth Cymru. Diweddglo arbennig i Rhydian i dymor bythgofiadwy. Rhagorol iawn a phob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

## Ysgol Sul

Llawer o ddiolch i Mrs Jean Ann Watson, Pant-y-crug, ar fodloni cymryd at y dosbarth iau yn ysgol sul Pen-llwyn, bob yn eilfis. Mae Jean yn cymryd lle Mrs Sian Spink a symudodd i Faenceinion yn ddiweddar.

## Teithio

Pob hwyl i Aled Jenkins, Y Pandy, sydd wedi gadael gyda ffrindiau i deithio yr Amerig dros dro. Boed iddo ddychwelyd yn ddiogel ymhen rhyw flwyddyn, wedi dysgu a mwynhau llawer.

## Gwella

Hyfryd clywed fod y Ficer, y Parchg John Livingstone yn well ei iechyd ac yn dechrau yn ôl yn ei swydd ( rhan amser) ddiwedd mis Mehefin.



## Priodas

Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau da am briodas dda, i Hannah merch Mr a Mrs Wynne Jones, Tan-y-gaer, Pen-llwyn, ac Owain Jones mab Mr a Mrs Bob Jones, Lodj Nanteos, Aberystwyth. Aeth ffrindiau a pherthnasau allan i Ffrainc (ardal y *Pyrenees*) erbyn y briodas ar 28ain o Fai. Cawsant ychydig o fraw, pan nad oedd yr awyrennau i gyd yn hedfan ar y pryd, oherwydd, os cofiwch, am y cwmwl lludw a glywsom amdano.

Ond yn wir i chi aeth y cyfan yn ei flaen yn iawn, a chafodd pawb benwythnos bendigedig a bythgofiadwy, gyda'r tywydd yn hyfryd tu hwnt. Pob hapusrwydd i Hannah ac Owain yn y dyfodol, a dymuniadau gorau i'r ddau deulu ar eu mab a'u merch yng nghyfraith newydd.

## Ennill Gradd

Llongyfarchiadau i Iona Davies, Maencrannog, ar ennill ei gradd M.A. mewn Addysg o'r Brifysgol Agored yn ddiweddar. Pob dymuniad da i ferch ddawnus iawn. Mae Iona yn Ddirprwy yn Ysgol Dyffryn Teifi.

## Bedydd

Cynhaliwyd bedydd Ania Marged yng nghapel Pen-llwyn fore Sul Mehefin 5ed, gan y Parchg Elwyn Pryse. Baban Elystan a Catrin Evans, Ardwyn, yw Ania, chwaer fach Owen Ellis. Roedd nifer dda o deulu a ffrindiau wedi ymuno â'r gynulleidfa, ac fe gafwyd oedfa ddymunol iawn. Dymuniadau gorau i mam-gu a tad-cu Arnold a Cynthia Evans ac Elfin a Celia Jones. Roedd y bedydd hwn yn achlysur hanesyddol, gan fod cofnod y bedydd cyntaf yng nghapel Pen-llwyn union 200 o flynyddoedd yn ôl.



O'r chwith i'r dde Catrin Evans, y Parchedig Elwyn Pryse gydag Ania Marged, Elystan Evans. Tu blaen Owen, brawd Ania.

Yn ddiweddar yn y Drwm yn LLGC bu dangosiad wedi ei hyrwyddo gan BAFTA o gyfres o ffilmiau Precious Life - cyfres a wnaethpwyd gan fyfyrwyr cyfryngol blwyddyn gyntaf yng Ngholeg Ceredigion, sy'n dangos hanes diddorol Cymru drwy lens camera y gwneuthurwr ffilm amatur. Wrth sôn am y prosiect ddigwyddodd ar y cyd â Archif Sgrin a Sain y Llyfrgell Genedlaethol eglurodd y myfyriwr cyfryngol o Gapel Bangor Andy Marshall: "Roeddym eisiau darganfod rhywbeth am fywyd y bobl oedd yn yr hen ffilmiau yma a rhywbeth am fywyd y rhai wnaeth y ffilmiau. Gyda chymorth yr Archif bu'n bosibl i ni leoli a wedyn gyfweld pobl oedd yn berthnasol i'r ffilmiau gwreiddiol." Cafodd Andy gymorth y bugail Erwyd Howells wrth edrych ar hen ffilm "Tom Jones: the Welsh shepherd" - a ffilmiwyd ym 1936 am waith bugail o Ynys-y-bŵl a Threorci. Arbenigai Tom ar ddysgu triciau i gŵn. Mae Erwyd yn ymddangos yn y ffilm fer gyfredol a grëwyd gan Andy ac a ffilmiwyd yn Nhynllechwedd, Llandre."

Ar ôl i Andrew Green, Llyfrgellydd, a Gwyn L. Williams, Rhaglennydd Creadigol 2012 ar gyfer yr Olympiad yng Nghymru annerch y gynulleidfa cafodd Andy gyfle i rwydweithio gyda theledwyr proffesiynol yn y derbyniad lle y bu iddo gyfarfod ymhlith eraill Colin Thomas (cyfarwyddwr y gyfres The dragon has two tongues) a bu'n trafod y posibilrwydd o fynd i Lundain i wneud ffilm ar gais yr hanesydd celf Christopher Grindley oedd yn arbennig o falch o weld deunydd archifyddol am y teulu Grindley yn un o ffilmiau Precious Life Andy. Yn y llun gwelir Andy Marshall, Erwyd Howells, a dau fyfyriwr arall - Pamela Atzori ac Oakley Edwards. Llun: Richard Jackson.



## Croeso

Croeso cynnes i Rhian ac Anthony, sydd wedi dod i fyw i 5 Cefnmelindwr yn ddiweddar. Byddai Aunty Gwyneth, y ddiweddar Mrs Gwyneth Harries yn hapus iawn Rhian yn siwr, mai ti sy'n byw yn ei thŷ.

# BOW STREET

## Suliau Mai-Medi

**Y Garn**
10 a 5
Gweler http://www.capelygarn.org/

*Mehefin*
26 J. E. Wynne Davies
*Gorffennaf*
3 John Tudno Williams
10 Oedfa'r Ofalaeth
17 Bugail (C)
24 Rhidian Griffiths Beti Griffiths
31 Dilwyn O. Jones I'w drefnu
*Awst*
7 Cyd-addoli yn Noddfa y bore
14 10.00 Lewis Wyn Daniel
21 Cyd-addoli yn Noddfa y bore
28 M.J. Morris Dim gwasanaeth nos
*Medi*
4 Reuben Roberts
11 Bugail Cen Llwyd
18 Bugail (C)
25 Adrian P Williams

**Noddfa**
*Mehefin*
26 Oedfa am 5.00. Cymundeb.
*Gorffennaf*
3 Uno yn y Garn am 10.00
10 Oedfa am 2.00
17 Oedfa am 10.00
24 Oedfa am 10.00. Cymundeb.
31 Oedfa am 5.00
*Awst*
7 Oedfa am 10.00
14 Uno yn y Garn am 10.00
21 Oedfa am 10.00. Cymundeb.
28 Uno yn y Garn am 10.00
*Medi*
4 Uno yn y Garn am 10.00
11 Oedfa am 2.00
18 Oedfa am 2.00. Cymundeb.
25 Oedfa Ddiolchgarwch am 5.00

## Genedigaethau

Dymuniadau gorau i James a Jaimie Thomas, gynt o Blaen ddôl, Bow Street, ar enedigaeth mab, Dylan James Thomas, dydd Sul Mai 22ain, ŵyr i Glenwen ac Ieuan Thomas, Maes Ceiro. Llongyfarchiadau i'r teulu oll.

Llongyfarchiadau i Nicole a Jim Finnigan ar enedigaeth merch - Mari Aerona - ar Fehefin 1af- chwaer i Iwan; wyres i Raymonda a Mike Roberts, Bryncastell.

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

ytincer@googlemail.com

## Sul Cymorth Cristnogol

Ar Fai'r 15fed cafwyd Oedfa Cymorth Cristnogol bwrpasol yng Nghapel y Garn dan arweiniad ein bugail, y Parchg Wyn Rh. Morris. Dilynwyd hynny gan Ginio Bara a Chaws yn y Festri, wedi ei ddarparu a'i weini gan aelodau Cymdeithas Chwiorydd y Garn.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Menna ac Elgan Davies, Maes Afallen a'r teulu ar farwolaeth tad Menna - Meirion Lewis - yn Nhreorci ar Fai 29. Roedd yn gyn brifathro Ysgol Gymraeg Ynys-wen, Treorci.

## Pen blwydd arbennig

Ar Fai 17 dathlodd Trefor Lewis, Llys Alban, 4 Tregerddan, ei ben blwydd yn 90 oed. Llongyfarchwn ef yn galonnog a dymuno iddo flynyddoedd dedwydd eto yng nghwmni Kathleen sydd mor ofalus o'i thad , a Leslie sy'n ymweld yn gyson i roi trefn ar yr ardd. Cafodd Trefor brynhawn i'w gofio wrth fwrdd y dathlu yn Llety Ceiro yng nghwmni Kathleen, Leslie a Sue; Anna y chwaer, flwydd yn hŷn na'i brawd; perthnasau eraill, cymdogion a chyfeillion. Buom yn cofio hefyd am bartneriaeth hir Trefor gyda 'r ddiweddar Mary ei briod hoff. Mae Trefor am ddiolch am y nifer fawr o gardiau cyfarch a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniodd ar ei ben blwydd.

## O'r Ysbyty

Ar ôl bod yn Ysbyty Bron-glais am wythnosau da cael croesawu Beryl Cadman, 14 Tregerddan, yn ôl i'w chartref at Clayton. Gobeithio y bydd yn parhau i hybu.

## Cofion

Mae'r cyfaill Charles Phillips, Cae'r Felin, ar hyn o bryd yng Nghartref Canol y Llan, Llanwrin. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da iddo gan obeithio y bydd yn atgyfnerthu'n fuan.

## Pen blwydd hapus

Wrth longyfarch Gwen Pugh, 19 Tregerddan, ar ddathlu'i phen blwydd yn 80 ar 9 Mehefin dymunwn bob bendith iddi hi a Dei.

## Brysia wella

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Seiriol Hughes, Maes y Garn, sydd adre'n gwella ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

## Merched Y Wawr Rhydypennau

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen ar Mai 9fed. Ar ôl trafod materion yn ymwneud â'r gangen cafwyd adroddiad am weithgareddau'r flwyddyn gan Shân. Etholwyd y pwyllgor canlynol ar gyfer 2011 - 2012
Llywydd - Enid Jones
Is-lywydd - Mair Lewis



Ysgrifennydd - Elizabeth Jones
Is-Ysgrifennydd - Joyce Bowen
Trysorydd - Beryl Hughes (Dolau)
Is-drysorydd - Bet Evans ynghyd â Meinir Roberts, Mair Davies, Shân Hayward, Mary Thomas ac Ann Jones.

Yn dilyn cafwyd hwyl yn chwarae bingo yng ngofal Brenda cyn mwynhau bwffe a baratowyd gan aelodau'r pwyllgor ac a drefnwyd gan Annetta ac Elen. Enillwyd y raffl gan Ceris a diolchwyd i bawb gan Beryl. Cafwyd cryn lwyddiant yn yr ŵyl Fai yn Felin-fach.
Ffotograffiaeth - 1af Joyce, 3ydd Shân
Gosod Blodau - (m) 3ydd Beryl
Gosod Blodau (b) 2ail Brenda, 3ydd Beryl
Pice Bach - 2ail Joyce

Ar ddiwedd y pnawn gwelwyd fod cangen Rhydypennau yn gyfartal gyntaf gyda changen Llanfarian a felly'n rhannu'r darian eleni. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm dau ddwrn ar ennill y trydydd safle yn y chwaraeon cenedlaethol.

Ar ôl y wibdaith ym mis Mehefin cawn seibiant byr dros yr haf cyn cwrdd eto ar yr ail nos Lun o fis Medi sef, Medi 12fed pryd bydd croeso i aelodau presennol ac aelodau newydd.

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Ddydd Mercher, Ebrill 6ed cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor. Diolchwyd i'r swyddogion am y rhaglen ddifyr ac amrywiol a gafwyd drwy'r tymor. Llinos Dafis oedd yn y gadair a Kathleen Lewis oedd yn cyfeilio.

Yn ystod y tymor rydym wedi ymweld, drwy gyfrwng lluniau, ag Oberammergau, Patagonia a Nepal, a'r tro yma taith i wlad Pŵyl yng nghwmni Meinir Lowry a Llinos Dafis oedd yr arlwy, i gloddfa halen Wieliczka i fod yn fanwl gywir, sydd rhyw 10 milltir o Krakow. Bu'r gloddfa hon yn cynhyrchu halen ers o leiaf fil o flynyddoedd ac i ddynodi ei phwysigrwydd fe'i rhoddwyd ar restr gyntaf UNESCO o Safleoedd Treftdadaeth y Byd yn



### Byd yr Aderyn Bach

Treuliwyd awr ddifyr iawn yng nghapel y Garn nos Sul, Mai'r 22ain, pan ddaeth Cwmni'r Morlan yno gyda'u cyflwyniad o fywyd a gwaith Waldo Williams, 'bardd yr adnabod a'r gwarchod'.

Trwy ddarlleniadau o farddoniaeth, a pheth rhyddiaith, cawsom dystiolaeth o agweddau gwahanol ar waith y bardd o grynwr: ei ddoniolwch a'i asbri, ei fedr dihafal i weld y byd drwy lygad plentyn, ei ddaliadau dwys-ddyngarol, a'i safiad gwleidyddol a arweiniodd at gyfnod yng ngharchar. Ar ôl arfer â chlywed cymaint o'i farddoniaeth yn cael ei goradrodd mewn eisteddfodau, amheuthun oedd clywed telynegion megis Cofio, y Tangnefeddwyr, ac yn enwedig Menywod, yn cael eu mynegi'n synhwyrol ddi-rwysg.

1978. Yr hyn sy'n rhyfeddod yn ei chylch bellach yw'r holl gerfluniau, galeriau, siambrau a chapeli tanddaearol gwych sydd i'w gweld yno, - i gyd wedi eu naddu o halen, a'r cwbl o waith y cloddwyr eu hunain.

Aelodau'r pwyllgor oedd yn trefnu a gweini'r te, sef Gwenan Price, Shân Hayward, Judith Morris, a Meinir Lowry.

Edrychwn ymlaen at eich cwmni ar ddyddiau Mercher cyntaf bob mis y tymor nesaf eto, - mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llŷr mab Gareth a Gaenor Jones, Hafle, ar ei ddyweddiad â Llinos, merch Bryn a Mair Edwards, Y Fedw, Llanycil, y Bala.

## DÔL-Y-BONT

### Brysiwch wella

Da yw gweld Sw Gerallt, Leri, adre ar ôl bod yn Ysbyty Bron-glais yn cael clun newydd. Brysiwch wella Sw.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i deulu Lewis, Cysgod yGwynt ar enedigaeth ŵyr bach — Taylor James. Mae Taylor James hefyd yn or-wyr i Mrs. Primrose Watkin, Penbont.

### Llwyddiant

Ymfalchïwn yn llwyddiant Jason Lewis, Cysgod y Gwynt, ar gael ei ddewis i chwarae ei drwmped yng Ngherddorfa Ieuenctid Ewrop. Mae hyn yn gryn gamp gan fod miloedd yn cael eu cyfweld am le yn y Gerddorfa a dim ond 140 yn cael eu dewis — dim ond Jason ac un arall gafodd eu dewis o Gymru eleni. Pob hwyl i ti Jason wrth deithio'r Almaen, Awstria, yr Eidal a'r Iseldiroedd yn ystod yr haf.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Anne Till — Bodlondeb gynt - ar farwolaeth ei thad ym Meddgelert ganol mis Mai

ac â Gareth Morgan, Glenside ar farwolaeth ei gefnder — Alun Evans, Bancydarren.

## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Madog

2.00

*Mehefin*

**26** J. E. Wynne Davies

*Gorffennaf*

**3** John Tudno Williams

**10** Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn

10.00

**17** Bugail

**24** Rhidian Griffiths

**31** R. W. Jones

*Awst*

**7**

**14** Lewis Wyn Daniel

**21**

**28** J. Elwyn Jenkins

*Medi*

**4** Ruben Roberts

**11** Bugail

**18** Bugail

**25** Adrian P Williams

### Alun Lewis Evans

Daeth y newydd am farwolaeth Alun Lewis Evans, Banc y Darren ar 14 Mai pan oedd rhifyn Mai o'r *Tincer* yn y wasg.

Ganwyd Alun Lewis Evans yn Nhanyffordd, Bancydarren 84 o flynyddoedd yn ôl, ac ar wahân i gyfnod o dair blynedd yn syth ar ôl priodi pan y bu'n byw a gweithio yn Llundain, ym Mancydarren y bu fyw am y cyfan o'i fywyd, a hynny yn Carreg Wen y tŷ y drws nesaf i'r lle y'i magwyd. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Trefeurig a mynychodd yr Ysgol Sul a'r gwasanaethau yng Nghapel Siloa, Cwmerfin a pharhaodd ei gysylltiad â'r Capel gydol ei oes hyd nes iddo fethu mynychu oherwydd cyflwr iechyd. Daeth tristwch mawr i fywyd Alun yn niwedd yr 1970'au pan gollodd ei wraig gyntaf Millie a hynny wedi 28 mlynedd o fywyd hapus. Ymhen amser fodd bynnag cyfarfu â Margaret ac fe'u priodwyd a chawsant 30 mlynedd o hapusrwydd gyda'i gilydd.

Yn ystod ei ieuenctid bu'n chwarae pêl-droed i Ganeris Trefeurig a chyfeirir ato yn llyfr Richard E. Huws ar hanes y tîm. Adeg yr Ail Ryfel Byd bu'n gweithio mewn pwll glo yn ardal Rhydaman fel un o'r 'Bevin Boys' ac yn ddiweddar cyflwynwyd iddo fedal am y gwasanaeth hwnnw.

Ar wahân i'r cyfnod yn y pwll glo a'r amser yn Llundain bu'n gweithio ar ôl gadael yr ysgol ar ffermydd lleol ac yna ym meithrinfa Austin yn Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth a bu ganddo ddiddordeb mewn garddio a byd natur gydol ei oes. Fodd bynnag yn adran priffyrdd Cyngor Sir Aberteifi ac wedi hynny Cyngor Sir Dyfed y bu'n gweithio am y rhan helaethaf o'i oes ac am flynyddoedd maith bu'n arolygwr ffyrdd yn yr adran honno; roedd yn adnabod pob twll a chornel o'r rhwydwaith ffyrdd yng ngogledd y Sir. Yr oedd yn ŵr cydwybodol iawn a daeth ei waith ag ef i gysylltiad â llu o bobl o fewn ardal eang o'r Sir. Er iddo fwynhau cyfnod hir o ymddeoliad ni fu ei iechyd cystal yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma a bu gofal ei briod Margaret yn fawr drosto. Yn ddiweddar treuliodd gyfnodau mewn cartrefi preswyl a bu farw ar y 14eg o Fai yng Nghartref 'Rallt, nid nepell o'r Trallwng. Bu colli ei fab David, a oedd yn byw yn Birmingham, ar ôl salwch hir, dim ond tua mis ynghynt yn ergyd fawr iddo.

Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar y 25ain o Fai. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal perthynas i'w briod y Parchedig Meredith Powell o Lanidloes a thalwyd teyrnged haeddiannol i Alun gan gyn-gydweithiwr a ffrind iddo Glyn T. Jones. Derbyniwyd rhoddion, er cof am Alun, tuag at 'Crossroads'.

Estynnir cydymdeimlad dwys â'i weddw Margaret ac â Glenys ei ferch a'i theulu sydd yn byw yn Henffordd ac hefyd gyda'i ferch yng nghyfraith Anne a chyda'r teulu oll.

### Bedydd

Ar 15 o Fai daeth nifer o berthnasau a ffrindiau i wasanaeth bedydd yng Nghapel Madog o dan arweiniad y Parchg Wyn Rh. Morris. Bedyddiwyd Elen Lleucu ap Llywelyn, merch fach Llywelyn a Sioned Evans, Rhydyceir.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Eirlys Jones gynt o Treflys, Tregaron, a ddathlodd ei phen blwydd yn 85 oed ar y 15 o Fai. Mae Mrs Jones yn cartrefu gyda'i nith Catherine Thomas, Bronheulog a gobeithiwn ei bod yn gwella ar ôl cyfnod o anhwylder yn ddiweddar;

i Aled Llŷr Thomas, Bronheulog am ennill yn Rali CffI Ceredigion yn adran barnu stoc;

i Michael ac Ursula Reeves ar eu priodas. Mae Michael yn ŵyr i'r diweddar Mr a Mrs Elfyn Williams, Ysgubornewydd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â David a Cynthia Binks, Trysor, ar golli dau berthynas — Miss Agnes Morgan a Mr Gwyn Thomas.

# PENRHYN-COCH

## Gwasanaethau

**Horeb**

*Mehefin*
26 10.30 Gweinidog
*Gorffennaf*
3 2.30 Gweinidog
10 10.30 Gweinidog
17 2.30 Gweinidog
24 10.30 Gweinidog
*Awst* ymuno gyda eglwysi'r dref
7 Unedig - Seion - Casi Jones
14 Unedig - Bethel - Terry Edwards
21 Unedig - Morfa - Eifion Roberts
28 Unedig - Seion - Rhodri Glyn
*Medi*
4 2.30 Gweinidog
11 10.30 Gweinidog
18 2.30 Lyn Lewis Dafis
25 10.30 Gweinidog

**Salem**

*Mehefin*
26 10am Y Parchg J. Tudno Williams - Cymundeb
*Gorffennaf*
10 2pm Y Parchg Richard H Lewis
24 5pm Y Parchg Richard H Lewis - Cymundeb
*Awst*
14 5pm Mr Arwyn Pierce
28 10am Mr Raymond Davies - Cymundeb
*Medi*
11 5pm Y Parchg Richard H Lewis
25 2pm Y Parchg Richard H Lewis

## Priodas

Prynhawn Sadwrn Mai 28ain priodwyd Bethan Bowyer a Jason Davies o Gomins-coch yn Eglwys Sant Ioan gwasanaethwyd gan y Parchedig Ian Girling, a'r organyddes oedd Mrs Eirwen Hughes.

## Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £1,110.92 — mae hyn yn cynnwys £125 a godwyd yng nghinio'r tlodion a drefnwyd gan Eglwys Sant Ioan. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd, Eleri James, ddiolch i bawb a fu'n casglu yn y pentref er sicrhau fod casgliad yn digwydd yn y pentref eleni eto. Y caslgwyr eleni oedd Gabi Coulter-Brown, Glyn Collins, Mair Evans, Alwen Fanning, Ceris Gruffudd, Mervyn Hughes, Glenys Morgan, y Parchg Judith Morris, Wendy Reynolds, Edward Roberts, Wendy Roberts, Elenid Thomas, a Ceri Williams.

## Urdd y Gwragedd

Ar ddydd Sadwrn Mehefin 4ydd gyda'r haul yn disgleirio teithwyd tuag at Rhaeadr Gwy, ble cafwyd seibiant cyn mynd ymlaen i gael cinio yng ngwesty 'Gwystre'. Cyrraedd Abaty Cwm Hir erbyn tri o'r gloch a chael croeso cynnes a'n tywys o amgylch y neuadd, gan y perchnogion presennol Paul a Victoria Humpherston maent wedi bod yn byw yn y neuadd ers tair mlynedd ar ddeg, ac wedi adnewyddu'r 52 ystafell i safon arbennig, yn ogystal ar ddeuddeg acer o erddi a llwybrau o amgylch y stad. Roedd pawb yn barod am baned ar ôl dwy awr bleserus iawn, diolchwyd ar ran y gwragedd gan ein llywydd Edwina Davies.




## Biniau

Yn dilyn amlhau casgliadau rheolaidd o'r drws mae Cyngor Ceredigion wedi symud y biniau oedd wrth Neuadd y Penrhyn ar wahân i'r un sydd yn dal gwydr. Mae'r biniau dillad ac esgidiau yn aros yna.

## Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Dr Jeremy Davies, Glan Ceulan, ar ennill MBE am ei waith fel gwyddonydd gyda'r Arolwg Daeareg Prydeinig..

## Gardd Gymunedol

Mae'r ardd i'w gweld yn ei holl ysblander ar hyn o bryd. Diolch i'r rhai sydd yn gofalu yn gyson amdani.

## Ennill gwobrau

Llongyfarchiadau i Wendy Reynolds, Ger-y-llan, am ennill Gwobr Mentor a Chefnogi cyd-wirfoddolwyr gyda CAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion) yn ddiweddar. Daeth i ddiwedd cyfnod o bum mlynedd fel Comisiynydd Rhanbarthol y Brownies yn ardal Ystwyth ac yn ddiweddar cafodd hi a Glenys Morgan fathodynau gwasanaeth 10 mlynedd.Yn y llun gwelir Wendy wedi derbyn plat CAVO. .



## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Gwyddno Dafydd, Rhandir, a Lisa Charles o Lanuwchllyn a briodwyd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ar 3 Mehefin. Cafwyd diwrnod arbennig o hapus; dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.
Llun: Einion Dafydd

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu y diweddar Kenneth Williams, (Bronderw), 51 Glanceulan, un o blant hoffus yr ardal;

Hefyd â theulu y diweddar Gwyn Thomas, Maelgwyn. Yntau hefyd wedi bod yn un ohonom yma yn y Penrhyn ers blynyddoedd lawer.

ac â Sioned, Rob ac Osian, Llwynderw, ar farwolaeth taid Sioned - Ernest Jones - yn Aberystwyth ddiwedd Mai

## Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Christine Swift, 6 Tan-y-Berth sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar;

Hefyd gwellhad buan i Mr a Mrs Urry, Ger-y-Nant. Cafodd Mr Urry driniaeth yn ddiweddar ac ar hyn o bryd mae Mrs Urry yn derbyn triniaeth;
Da yw deall fod Connie Evans, Gwawrfryn yn dal i wella; hefyd y Parchg John Livingstone. Dymuniadau gorau hefyd i'n

gohebydd Mairwen Jones sydd yn disgwyl dyddiad i gael triniaeth yn Ysbyty Bron-glais. .

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau 12fed o Fai i ddiweddi y tymor aeth y gangen ar ei thaith ddirgel flynyddol. Fel arfer wrth fynd ar y bws roeddynt yn ceisio dyfalu lle roeddent yn mynd. O'r diwedd cyrraedd Ystrad Fflur ac fe dreuliwyd y noson yno yng nghwmni Charles Arch ac fe roddodd i ni holl hanes am Ystrad Fflur a'r ardal. Yn anffodus ni chafwyd mynediad i'r adfaelion yr hen Abaty ond fe aed i mewn i'r Eglwys ac fe fuom o amgylch y fynwent a chael hanes rhai o'r enwogion sydd wedi eu claddu yno, rhai fel Dafydd ap Gwilym, a'r dyn dienw a ddarganfuwyd ar y mynydd ar ei ffordd i Bontrhydfendigaid a chael yn ei boced llun merch. Mae barddoniaeth wedi cael ei ysgrifennu gan Ifan Jenkins am yr achlysur er mwyn codi arian i roi carreg ar ei fedd.

Yno yn y fynwent roedd yna fedd lle mae coes yn unig wedi cael ei chladdu. Diddorol dros ben. Diolchwyd i Charles Arch am yr holl hanes gan Ceri Williams.

Yna fe aed ymlaen i'r Llew Coch yn y Bont i gael swper. Treuliwyd amser hapus iawn yno a chafwyd bwyd blasus dros ben. Ac fe gymerwyd y cyfle o wneud swyddogion newydd. Diolchwyd i bawb yno gan y Parchg Judith Morris. Aeth pawb tua thre wedi mwynhau yn fawr iawn.

### Symud

Dymuniadau gorau i Bethan ac Eurfyl Rees, Dôl Helyg, sydd wedi symud i Rydyfelin.

### Cymdeithas y Penrhyn

Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn nos Fercher Mehefin 8 etholwyd y swyddogion isod ar gyfer Tymor 2011/12.

Cadeirydd: Menai Lloyd Williams
Is-gadeirydd: Dr W. B. L.Evans
Ysgrifennydd: Ceris Gruffudd
Ysgrifennydd Aelodaeth:Dafydd Sheppard
Trysorydd: Eirian Reynolds

Bydd taith tymor eleni yn mynd i ardal Treffynnon, Sir y Fflint dan arweiniad Gron Ellis dydd Sadwrn Gorffennaf 9fed. Enwau i a mwy o fanylion gan yr Ysgrifennydd. Bydd noson agoriadol y tymor newydd nos Fercher Medi 21 pan geir noson yng nghwmni Russell Jones (Byw yn yr ardd).



### Nain a taid

Llongyfarchiadau i Gwenan a Richard Wyn Davies, Ger-y-llan, ar ddod yn nain a taid yn ddiweddar. Ganwyd merch fach - Maia - i Nia a Pete yng Nghaerdydd.

### PACT

Deallir na fydd mwy o gyfarfodydd PACT gan Heddlu Dyfed-Powys ym Mhenrhyn-coch gan nad oedd pobl yn troi allan i'r cyfarfodydd - dim ond tri oedd yn y cyfarfod diwethaf.

### Clwb Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 13, 27 Gorffennaf, 10, 24 Awst, 14, 28 Medi. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.
hwn o dan y llun - dileu beth sydd yna

### Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Trystan Davies, Glan Ceulan, yn ei swydd newydd - Rheolwr Siop ac Arddangosfa yng Nghanolfan Owain Glyndwr ym Machynlleth. Ailagorwyd y Ganolfan ganol y mis gan Alun Davies, Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar ôl gwaith adnewyddu a gostiodd tua £350,000.

## Taith Mari Jones

Ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn, y 3ydd a'r 4ydd o Fehefin, mentrodd rhyw naw ohonom (gan gynnwys un ci bach annwyl ac egnïol iawn o'r enw Toss) ar Daith Mari Jones o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala, i gofio am yr ymdrech aruthrol a gyflawnodd y ferch ifanc hon er mwyn prynu Beibl gan Thomas Charles. Mae'r daith ar ei hyd yn gyfanswm o 28 milltir a cheir yr holl fanylion mewn llyfryn deniadol a baratowyd gan Mary Thomas ac a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Beibl yn y flwyddyn 2009.

Ar ôl ymweld â Tŷ'n y Ddôl yn Llanfihangel-y-Pennant, lle cafodd Mari Jones ei magu, dyma gychwyn ar y daith trwy ddilyn y llwybrau drwy Gwm Llan a Chwm Tal-y-llyn i Finffordd. Roeddem yn ffodus ei bod yn ddiwrnod braf ac yn weddol fuan ar y daith clywsom y gog yn canu fwy nag unwaith. Roedd y profiad o syllu i lawr ar Lyn Tal-y-llyn a gweld yr eglwys fechan lle priodwyd Mari Jones a Thomas Lewis Jones yn 1813 yn wledd i'r llygaid. Wedi cyrraedd Minffordd rhaid oedd dilyn y ffordd fawr am ychydig cyn troi i Gwmrhwyddfor ac yna dringo'n raddol ar hyd yr hen lwybr ceffyl islaw yr A487 lle roedd gwaith adnewyddu yn cael ei wneud ar y ffordd. Roedd yr haul yn danbaid erbyn hyn ac fe brofodd y rhan yma o'r daith yn waith caled i rai ohonom! Ar ôl gadael Dyffryn Tal-y-llyn braf oedd cyrraedd Cwm Hafod Oer a cherdded ar hyd y llwybrau gwastad. Erbyn hyn roeddem wedi cyrraedd ardal y Crynwyr ac yn ôl y wybodaeth yn y llyfryn fe deithiodd George Fox, y Crynwr cyntaf, i'r ardal hon nôl yn 1657 a chael gweledigaeth 'y cyfodai Duw bobl iddo'i hun i eistedd dan ddysgeidiaeth'. Mewn dim o dro dyma gyrraedd Gwesty'r 'Cross Foxes' a chael hoe haeddiannol i dorri syched cyn bwrw ymlaen unwaith eto am Fferm Gwanas nes cyrraedd pen y daith am y diwrnod cyntaf yn y Brithdir!

Ar y bore canlynol, rhaid oedd teithio i'r Bala i adael y ceir yno, cyn dal y bws yn ôl i'r Brithdir i ail-gychwyn y daith. Cawsom gerdded am yr awr gyntaf o dan gysgod y coed a mynd heibio man geni Evan Jones — Ieuan Gwynedd (1820-1852), sef y gweinidog, emynydd, newyddiadurwr a'r gwladgarwr enwog. Prynodd ei fam, Catherine Evans, Feibl gan Thomas Charles a thalodd amdano bob yn ychydig o'i henillion prin. Cafodd ei alw y 'Beibl Coch' am i Catherine ddiogelu'r Beibl a'i lapio mewn brethyn coch.

Roedd y rhan nesaf o'r daith yn cychwyn yn Nolfeili ac erbyn hyn synhwyrem fod Llyn Tegid yn agosáu. Wrth gerdded ar hyd y llwybrau sylwem ar safle Hufenfa Meirion ar y ffordd fawr islaw, lle prysur iawn rhwng yr 1930au a dechrau'r 1970au. Hefyd medrem weld un o dollbyrth y ffordd dyrpeg a adeiladwyd rhwng 1750 a 1805. Erbyn hyn roedd Cadair Idris ymhell y tu ôl inni a gogoniant yr Arennig ac Aran Benllyn i'r chwith ac i'r dde. Dyma gyrrraedd Llanuwchllyn a chan fod yr amser yn dechrau tynnu 'mlaen fe benderfynodd pump ohonom mai gwell fyddai dal y bws o Lanuwchllyn i'r Bala. Ond aeth y pedwar arall yn eu blaenau ar hyd ochr y Llyn gan gyrraedd y Bala tua 7 yr hwyr. Llongyfarchiadau iddynt am gerdded y 28 milltir dros y ddau ddiwrnod a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Daith.

Cawsom ddau ddiwrnod bythgofiadwy: cwmni difyr, tywydd braf a Sir Feirionydd ar ei gorau. Mawr yw ein hedmygyedd o ddycnwch Mari Jones yn cerdded yn droednoeth yn ôl ac ymlaen o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala i brynu Beibl.

Diolch i John Leeding, Rehoboth, Taliesin am arwain y Daith a sicrhau ein bod wedi dychwelyd adre'n ddiogel. Byddwn yn dilyn ôl traed Mari Jones unwaith eto yn ystod yr haf a'r hydref eleni, dros nifer o wythnosau, mewn pum rhan benodol, oddeutu 5-6 milltir yr un. Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â ni cysylltwch â John Leeding (832672) neu Judith Morris (820939).



# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Ar nos Iau 26 Medi, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Tirymynach yn Neuadd Rhydypennau. Eleni eto ni phresenolwyd y cyfarfod gan un o drethdalwyr yr ardal. Yn ei adroddiad blynyddol diolchwyd y Cadeirydd, y Cyng. Owain Morgan am bob cymorth a chydweithrediad yn ystod ei ail flwyddyn fel Cadeirydd, a dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Heulwen Morgan, ei olynydd yn y gadair.

Trafodwyd nifer o faterion yn ystod y flwyddyn, ac fe roddwyd sylw manwl i bob un. Y broblem fwyaf, meddai'r Cyng. Morgan ar hyn o bryd sy'n dal unrhyw ddatblygiad yn ôl yn y gymuned yw'r helyntion gyda'r garthffosiaeth, sy'n golygu nad oes ceisiadau am godi tai newydd yn cael eu cymeradwyo. Mae'r sefyllfa yn anfoddhaol ac mae'r Cyngor yn pwyso'n daer ar yr awdurdodau perthnasol am weithredu brys ar y mater.

Etholwyd y Cyng. Dewi James, Llangorwen, yn is-Gadeirydd y Cyngor. Bydd yr un Cynghorwyr yn cynrychioli'r Cyngor ar wahanol fudiadau yn y gymuned eleni eto. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol, gyda chyfanswm o £12, 587.17 mewn llaw ar hyn o bryd.

Dilynwyd y cyfarfod uchod gan gyfarfod mis Mai y Cyngor. Cadarnhawyd ein bod yn archebu dwy sêt newydd o ddeunydd ail-gylchu i'w gosod yn neupen y pentref. Defnyddir darnau o'r hen seti i atgyweirio y rhai toredig. Y bwriad yw pwrcasu dwy sêt newydd bob blwyddyn.

Ni chafwyd unrhyw olau ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus yn Nhregerddan. Wedi cryn drafod penderfynwyd ysgrifennu eto at Tai Ceredigion yn eu hatgoffa mai eu cyfrifoldeb hwy fel perchnogion y rhan gyhoeddus o'r ystâd yw cynnal a chadw y llwybr.

Nid oes fawr ddim wedi symud ymlaen yn ystod y mis diwethaf gydag ail-raddio rhan o ystad Maesafallen.

Daeth llythyr oddi wrth Mr Roy Hancock yn mynegi cwyn trigolion Llangorwen am y goryrru ar y ffordd o Blas Cwmcynfelin at Nantcellan. Oherwydd y nifer cynyddol o ddamweiniau ar y darn hwn o'r ffordd, penderfynwyd ysgrifennu ar Brif Weithredwraig Ceredigion i annog yr adran briodol i ystyried gosod arwyddion a thawelyddion traffic ar y ffordd.

Adroddodd y Cyng. Paul Hinge ei fod yn gwasgu ar yr awdurdodau i symud ymlaen gyda'r cynlluniau technegol i osod llwybr beiciau o Rydypennau i gysylltu â'r un sydd eisoes yn arwain o Dal-y-bont i ben lôn y Fagwyr. Y gobaith yw y byddai tirfeddianwyr yn fodlon rhyddhau tir yn rhad, gallai hyn dorri i lawr yn enbyd ar y costau a'r amser.

Mae'r Cyng. Hinge hefyd yn ffyddiog y gellir uwchraddio ffordd Clarach o Bow Street fel y bydd yn cael ei graeanu yn ystod y gaeaf ar fyrder. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor Cymuned yn talu am y grit a'r halen i lenwi'r biniau ar yr ystadau, ond rhaid gosod arwyddion ar y biniau yn dynodi mai at wasanaeth yr ystad yn unig y defnyddir y graean!

Bydd cyfarfod o PACT yn Neuadd Rhydypennau am 7.30pm ar nos Fercher, 8 Mehefin. Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 30 Mehefin.


MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

**Ti a Fi Llandre**

Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.





Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn
01545 574187
E-bost
cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



GWASANAETH TEIPIO

CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS

FFON: 01970 828693
E-BOST:
daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk



*Blodau i bob achlysur*

***Blodau'r Bedol***

*Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur*

***Donald Morgan***
*Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB*
*Ffôn 01974 202233*

*Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer*





eich gwefan leol
www.trefeurig.org

newyddion i
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ



LLETY PARC

Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas

Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333



Y TINCER
ytincer@googlemail.com

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod misol arferol Cyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig nos Fawrth 17 Mai. Cychwynnwyd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd am 2010/11, Trefor Davies, yn y gadair, ac roedd naw o'r cynghorwyr eraill a'r Clerc yn bresennol; derbyniwyd ymddiheuriad gan Melvyn Evans. Roedd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2010 wedi'u derbyn ym Mehefin 2010. Yn ei araith yn ymadael â'r gadair, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Nododd rai o'r prif faterion y bu'r Cyngor yn ymwneud â hwy yn ystod y flwyddyn: yr ymdrech i gadw Ysgol Trefeurig fel adeilad ar gyfer defnydd y gymuned; y ddadl am y fferm wynt arfaethedig yn Nant y Moch; ac ymateb y Cyngor i gynigion y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer yr ardal.

Etholwyd yr Is-Gadeirydd, Dafydd Sheppard, yn Gadeirydd ar gyfer 2011/12, a chymerodd ef y gadair. Diolchodd yn gynnes i Trefor Davies am ei waith yn ystod y flwyddyn a aethai heibio. Etholwyd Edwina Davies yn Is-Gadeirydd ar gyfer 2011/12, ac etholwyd y canlynol yn gynrychiolwyr y Cyngor ar wahanol bwyllgorau a sefydliadau: Neuadd y Penrhyn a PATRASA — Gwenan Price; Cae Chwarae Pen-bont a Chymdeithas Hen Ysgol Trefeurig — Trefor Davies; Cartref Tregerddan — Dai Rees Morgan a Gwenan Price; Un Llais Cymru — Dafydd Sheppard ac Edwina Davies; pwyllgor y Fferm Wynt a Gohebydd y Wasg — Richard Owen; Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch — Mervyn Hughes.

Yn y cyfarfod arferol a ddilynodd, adroddwyd fod llythyr wedi'i dderbyn gan PC Hefin Jones yn cadarnhau na fyddai cyfarfodydd PACT yn cael eu cynnal ym Mhenrhyn-coch o hyn ymlaen. Adroddodd Trefor Davies fod y gwaith o lunio ail ran cais Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig i Gronfa'r Loteri yn awr ar y gweill, ac yn debyg o gymryd hyd at chwe mis. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor ysgrifennu at Gyngor Ceredigion i ofyn iddynt ailystyried y rhent y bwriedid ei ofyn ar gyfer yr ysgol gan ei fod yn uchel iawn ar gyfer grŵp gwirfoddol.

Cytunodd Dafydd Sheppard i fynd i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Ceredigion ar 10 Mai pan fyddai Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2011/12 yn cael ei hurddo.

Roedd llythyr o ymddiswyddiad wedi dod oddi wrth y Cyng. Kari Walker, gan ei bod yn mynd dramor i weithio am o leiaf flwyddyn. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad i'r Cyngor, a dymunwyd yn dda iddi yn y dyfodol. Byddai'r Clerc yn hysbysu Cyngor Ceredigion o'r sefyllfa. Hefyd roedd Mrs Pat Walker, y cyn-Glerc, wedi anfon llythyr yn diolch i'r Cyngor am y cinio a fu ar 6 Mai i nodi ei hymddeoliad.

Cytunodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i gynrychioli'r Cyngor yng Nghynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid ar 8 Hydref. Ceir y cofnodion yn llawn ar www.trefeurig.org.



Nos Wener, 6 Mai, cynhaliodd Cyngor Cymuned Trefeurig ginio yn Llety Parc, Llanbadarn, i anrhydeddu Mrs Pat Walker, Cwmsymlog, ar ei hymddeoliad o fod yn Glerc y Cyngor, swydd y bu ynddi am 32 o flynyddoedd. Trefnwyd a llywyddwyd y noson gan y Cyng. Trefor Davies, Cadeirydd y Cyngor, ac fe dalwyd teyrngedau i Mrs Walker am ei gwasanaeth gloyw dros yr holl flynyddoedd gan y cyn-Gynghorydd Daniel Huws a'r Cyng. Edwina Davies. Yn y llun gwelir Daniel Jones, Trefor Davies, Kari Walker, Pat Walker, Gwenan Price, Dafydd Sheppard, Richard Owen, Mervyn Hughes, Tegwyn Lewis, Edwina Davies. Roedd dau gynghorydd yn absennol - Mel Evans a Dai Rees Morgan.

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt.
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch
Gwrthtaith Fibrophos a rhai organig
Ymgymymerir â phob math o waith amaethyddol am brisiau cystadleuol
Loriau a pheiriannau amaethyddol i'w llogi
01970 820149
07980 687475

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

## O'R CYNULLIAD

Dyma fy erthygl gyntaf ers imi gael fy ail-ethol i gynrychioli Ceredigion yn yr etholiadau Cymreig ar 05 Mai, a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth unwaith eto. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gynrychioli buddiannau Ceredigion a'i thrigolion yn y Senedd ym Mae Caerdydd dros y pum mlynedd nesaf ac mae croeso i chi, fel arfer, i gysylltu â mi os allaf fod o unrhyw gymorth i chi.

Un o fy nghyfarfodydd cyntaf wedi'r etholiad oedd gyda Rhodri Williams, Cadeirydd OfCom yng Nghymru, er mwyn trafod cais perchnogion newydd Radio Ceredigion i newid fformat ieithyddol yr orsaf. Ers i'r gwasanaeth ddod o dan reolaeth perchnogion Radio Sir Gar a Radio Sir Benfro, mae nifer o drigolion lleol wedi bod yn pryderu y byddai'r defnydd o'r Gymraeg yn y darllediadau yn lleihau. Yn awr, mae OfCom wedi derbyn cais i leihau faint o Gymraeg sy'n cael ei darlledu yn ystod oriau brig ac maent wedi cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau.

Yn ystod mis Mai, gwnes hefyd fynychu'r rali a gynhaliwyd yn Aberystwyth i wrthwynebu'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus mae'r llywodraeth ConDem yn eu cyflwyno. Ceredigion yn Erbyn y Toriadau oedd yn gyfrifol am yr orymdaith a'r cyfarfod ac roeddwn yn falch iawn i gael fy ngwahodd i annerch y dorf a'u hatgoffa cymaint y bydd y toriadau yn effeithio ar Geredigion, lle mae tua 40 y cant o weithwyr lleol yn cael eu cyflogi gan y sector gyhoeddus.

Yn olaf, roeddwn yn falch i glywed y bydd y Dorch Olympaidd yn dod trwy Geredigion y flwyddyn nesaf yn ystod ei daith o amgylch y Deyrnas Unedig yn yr wythnosau cyn cychwyn y Gêmau Olympaidd yn Llundain. Roeddwn wedi dechrau pryderu na fyddai Ceredigion yn elwa dim o'r paratoadau ar gyfer y cystadlaethau yn ne-ddwyrain Lloegr ac rwy'n gobeithio y bydd trigolion lleol yn cael y cyfle i gario'r dorch.

**Elin Jones**




**GWELY A BRECWAST MAIR**

9 Heol Llangrallo, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 3AR

Croeso cynnes Cymreig mewn lleoliad delfrydol i ganolfanau siopa gorau de Cymru, Canolfan y Mileniwn, Stadiwm y Mileniwm a Cae Pêl-droed Caerdydd.

www.mairsbedandbreakfast.co.uk
e-bost : mairbandb@hotmail.com
01656 655442
07768 286303

Cysylltwch â Huw a Sarah Tudur



**Gofal Traed Aber**

Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol

**TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL**

Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar **01970 617269** am apwyntiad



**Y TINCER**
ytincer@googlemail.com


## COLOFN MRS JONES


Fel llawer ohonoch, fe fyddaf yn hoffi bwyta grawnfwyd i frecwast, ar hyn o bryd, Shreddies sydd ar y fwydlen. 'Knitted by nanas' sydd yn fy wynebu bob bore y dyddiau hyn.Ymgais yw'r slogan, wrth gwrs, i danlinellu pa mor faethlon yw'r bwyd, mae yna ymgais i'n perswadio ei fod cystal â rhywbeth wedi ei goginio gartref ac mae'n ddiddorol mai at neiniau y cyfeirir, mae yna rhyw awgrym mai dim ond hwy sydd yn coginio a gweu ac nad yw plant yn arfer a gweld eu mamau yn gwneud yr un o'r ddau beth.

Ond bid a fo am hynny, fe gododd yr ymadrodd ei hun atgofion ynof. Fe roedd gen i un nain oedd yn medru gweu - mam fy nhad; arbenigedd honno oedd dillad isa a sannau, y pethau mwyaf anghysurus a choslyd a welais erioed ond, o leiaf, roedd eu gwau hi yn ffitio.Yr oedd fy nain arall yn gwau hefyd, ond nid oedd ei sgiliau hi cystal, fe roedd y llewys wastad yn rhy hir a chofiaf yn dda am un siwmper a weuodd i'm tad. Roedd yn ddigon mawr i eliffant a'r gwddf polo yn ymdebygu i gwcwll mynach. Fel y dywedodd fy nhad, a honno a dillad isaf wedi eu gweu gan ei fam amdano, roedd yn teimlo fel petai yn fynach rhyw urdd a gredai fod anghysur corfforol yn anhepgor i lwyddiant enaid ac un a oedd a siars yn y diwydiant gwlan ar ben hynny. A mae gan bron bawb ydw I yn ei adnabod straeon o'r fath. Fe allai fy mam weu a gweu fel ei mam yng nghyfraith, roedd y dillad yn ffitio. Ac ni weuai ddillad isaf, ychwaith, diolch i'r drefn.Yn ddigon naturiol, pan oeddwn i yn iau, fe geisiodd fy nysgu ond methiant llwyr fu pob ymdrech pryd hynny, er fe ddysgodd Gwynn, fy mrawd hynaf, weu dim ond trwy wylio mam yn ceisio fy nysgu i, y fi oedd yn stiwpid. Roeddwn i yn fy ugeiniau pan ddysgais weu pan lwyddodd mam i'm dysgu trwy fy nhrin fel petawn yn hanner pan oedd yn gwybod dim. Bu'r arbrawf yn llwyddiant a, bellach, gallaf innau weu er mai pur anaml y gwnaf hynny. Y mae plant y teulu wedi tyfu ac ni fum erioed ag amynedd creu dillad oedolion. Yn yr haf y gweuai fy mam pan oedd darlithoedd WEA drosodd. Byddai hi a mi yn gweu'n gwmnius gyda'n gilydd wrth wylio'r teledu gyda'r nos a'nhad yn cwyno ei bod hi fel byw gyda dwy Madame Defarge. A chofiaf ei gwylio yn gweu gyda'r ddwy nain, mam fy nhad yn gweu sannau gyda phedair gweillen yn troi yn gylch o arian yn ei dwylo, ei mam ei hun yn arafach —a chlic, clic, clic y gweill yn gyfalaw i'r sgwrs. Nid oes gennyf gof gweld fy modryb yn gweu, unwaith erioed y mentrodd, hyd y gwn i, ac ni bu llwyddiant pryd hynny. Roedd ei merch hynaf yn disgwyl a gwyddai fy modryb mai hogyn fyddai ac roedd Mari wedi prynu gwlan a phatrwm romper suit ar gyfer y babi newydd. Ond roedd yn methu cael y patrwm i weithio a chan feddwl mai arni hi ei hun oedd y bai, dyma basio'r patrwm a'r gwlan i mam, Gwynn a mi. Ac fe fethodd y tri ohonom. Barn Gwynn oedd fod bai ar y patrwm ac aeth ati i arbrofi a gweld mai'r bai oedd fod y patrwm yn gofyn am fasglu niferoedd cyfartal o bwythau ond bod yn rhaid iddynt fod mewn niferoedd anghyfartal i'r patrwm weithio mewn difrif... O fasglu , dyweder, 5 yn lle 4 pwyth, roedd y patrwm yn gweithio. Ac fe weuodd Gwynn y siwt mewn chwinciad. Fe awgrymais i y dylai ysgrifennu at Paton's — ac fe wnaeth hynny, gan gael copi cywir o'r patrwm a phopeth oedd angen i'w greu a llythyr yn diolch i Mrs ap Gwilym am ddangos y camgymeriad iddynt...

Ychydig a wyddai Patons, mae'n amlwg, yw bod yna ddigon o ddynion yr ochr yma i'r ffin fedr weu ac sydd yn fodlon cyfaddef hynny. Wedi'r cyfan, bu dynion yn gweu sannau i'w gwerthu at y rhent ers canrifoedd. Mae yna aml i gyfeiriad, er enghraifft, at wenidogion a weuai sannau ar eu ffordd i'w cyhoeddiadau — cyn dyddiau car, wrth reswm! — er mwyn gofalu fod corff ac enaid yn aros yn un.

# ADOLYGIADAU

Elgan Philip Davies *Yr Hen Goleg, The Old College*. Gwasg Gomer 32t. £3.99




Dyma lyfr hylaw, diddorol, a dymunol i'w ddarllen gan Elgan Philip Davies yn y gyfres Cip ar Gymru. Mae'n dechrau trwy amlinellu twf cynnar tref Aberystwyth, yn cynnwys bwydlen y wledd yng Ngwesty'r Belle Vue i ddathlu agor y rheilffordd o'r Amwythig i Aberystwyth yn 1864. Bu'r rheilffordd honno, a rheilffordd y de, yn fodd i gludo miloedd o fyfyrwyr i'r coleg dros y ganrif a hanner oddi ar hynny.

Clywn am adeiladu adeilad yr Hen Goleg i fod yn westy i ddechrau, ac yna ei brynu yn 1867 gan Bwyllgor y Brifysgol dan arweiniad Hugh Owen, i fod yn gartref i Brifysgol gyntaf Cymru, yr oedd galw mawr amdani yn sgil anfri Brad y Llyfrau Gleision ugain mlynedd yng nghynt. Difrodwyd rhan helaeth o'r adeilad yn 1885 gan dân a ddechreuodd yn y labordy Cemeg ac a laddodd dri o ddiffoddwyr. Er cymaint y drychineb bu hynny hefyd yn gyfle i wneud yr adeilad yn fwy addas ar gyfer gweithredu fel Prifysgol.

Yna, ymlaen at heddiw. Beth, tybed, fydd dyfodol yr adeilad hwn pan fydd holl adnoddau Prifysgol Aberystwyth wedi ailgartrefu ar Ben-glais? Barn yr awdur yw y dylai barhau yn 'adeilad cyhoeddus fel y gall cenedlaethau'r dyfodol hefyd ryfeddu ato a'i fwynhau.'

Rwy'n siwr y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn dweud Amen i hynny. Ond nid ni sydd i benderfynu!

Mae'r llyfr bach dwyieithog hwn yn ddelfrydol ar gyfer pawb sydd â diddordeb yn hanes Aberystwyth, yn drigolion lleol neu yn ymwelwyr â'r ardal, ac yn siaradwyr Cymraeg neu beidio.


---

Randall Evans Enoch, *Llanfihangel Genau'r Glyn. The History of a Community, Wendall Publishing*, Glynteg, Llandre, 275 tt., £9.50

Wyddech chi mai hen blwy Llanfihangel Genau'r-glyn oedd un o blwyfi mwyaf Cymru gynt? Wyddech chi fod darn arian o'r Aifft wedi ei ddarganfod ar draeth y Borth yn y 1950au sy'n awgrymu bod trigolion y fro yn masnachu â'r Rhufeiniaid cyn y goncwest Rufeinig? Wyddech chi fod cwpan cymun 'Eglwys Castell Gwallter' ac arno'r dyddiad 1573 yn dal i gael ei ddefnyddio yn eglwys y plwy; fod dau gwpan ar un adeg yn ôl traddodiad, a'r ddau wedi eu dwyn ond i un gael ei ddarganfod mewn ffos gerllaw'r ffordd i Gaerfyrddin? Wyddech chi y byddai teithwyr yng Ngorsaf Paddington yn Oes Fictoria yn gweld poster yn hysbysebu rhinweddau iachaol Ffynnon Mihangel yng nghysgod yr eglwys? Dyna rai o'r danteithion sydd i'w cael rhwng cloriau'r gyfrol hon a gyhoeddwyd y llynedd gan Randall Enoch, un o hynafgwyr y pentre a fu'n gadeirydd Ymddiriedolaeth Treftadaeth Llandre ers 2002.

Fel un a symudodd i Landre o bellter byd Bow Street ar ddiwedd y nawdegau, roedd cael fy nhywys drwy hanes cyfoethog y pentre a'r ardal gyfagos yn agoriad llygad i mi. Er bod yma sylw o raid i fywyd crefyddol y plwy, hanes y gymuned seciwlar yw'r gyfrol hon, chwaer-gyfrol i *Llanfihangel Genau'r Glyn — A Church History* a gyhoeddwyd gan yr awdur yn 2002.

Cawn wybod am y trigolion cynharaf cyn boddi Cantre'r Gwaelod, am fryngaerydd Oes yr Haearn fel Pwll-glas a Bryn-hir (sef safle'r castell yn ddiweddarach) a fyddai'n gwarchod y dyffryn strategol bwysig islaw, ac yn yr Oesoedd Canol am hanes cythryblus Castell Gwallter ynghanol yr ymrafael rhwng y Normaniaid a'r tywysogion Cymreig. Wrth gyrraedd y cyfnod modern clywn am ddylanwad cynyddol teulu Pryse Gogerddan o gyfnod y Tuduriaid ymlaen. Neilltuir pennod gyfan yn nes ymlaen yn y llyfr i'r teulu dylanwadol hwnnw, ynghyd â phennod ar hen blasty Glanfrêd, man geni mam Edward Lhuyd, a ddaeth i feddiant teulu Gogerddan yn 1597.




Difyr hefyd yw'r penodau byrion ar y ddwy ganrif ddilynol lle cawn olwg, er enghraifft, ar dwf anghydffurfiaeth grefyddol. Ond o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, diolch yn bennaf i'r ffurflenni cyfrifiad, clywn lawer mwy am hynt a helynt pentrefwyr cyffredin. Felly cawn bennod am fywyd trigolion Pen-y-garn, Rhydypennau a'r Dolau rhwng 1850 ac 1950, a phennod arall ar Landre, Tai Gwynion a Dôl-y-bont yn yr un cyfnod. O dai annedd i ffermydd, o dai crefftwyr llewyrchus fel teilwriaid Penygroes i siopau sydd, rai ohonynt, yn dal yn fyw yng nghof y to hynaf, mae'r cyfan yma; ac mae'r lluniau'n ychwanegu llawer iawn at ddiddordeb y gyfrol. Dadlennol hefyd yw'r penodau ar flynyddoedd y ddau ryfel byd, yn enwedig hanes y faciwîs a heidiodd yma, o Lerpwl yn bennaf, o 1939 ymlaen, i'w lletya gan amlaf yn sŵn dieithr y Gymraeg a'u haddysgu dan amodau anodd ochr yn ochr â'r plant lleol yn yr hen Ysgol Rhydypennau uwchlaw'r pentre ac yn ysgolion eraill y fro.

Neilltuir penodau wedyn i graffu ar wahanol agweddau ar fywyd y gymuned hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Cawn hanes addysg o gyfnod ysgolion cylchynol ac elusennol y ddeunawfed ganrif hyd ysgol bresennol Rhydypennau, a phennod arbennig o ddiddorol am hanes yr hen ysgol ramadeg ar y bryn sy'n dŷ annedd bellach. Cawn glywed am y newidiadau chwyrn ym myd amaeth a'r diwydiant mwyngloddio — bu sawl un o drigolion Llandre gynt yn ennill ei damaid ym mwyngloddiau Tal-y-bont a'r cyffiniau — am ddylanwad y môr, am drafnidiaeth, am y degwm ac am les cymdeithasol (gan gynnwys hanes difyr yr hen Dŷ Clwb, Penlan bellach), am hanes geni a phriodi a marw'r trigolion fel y'i cofnodir yn y cofrestri plwy ac ym mynwent Llanfihangel a mynwent y Garn. O bryd i'w gilydd bydd atgofion personol yr awdur neu atgofion ei fam yn dod â'r cyfan yn fyw, fel yn y darn yma sy'n sôn am Felin Leri yn Nhal-y-bont:

*The author remembers going to the Leri Mill in the 1960s to buy goods from the shop on the site and to watch the weaver at work. During the Second World War his mother used to go there to buy raw yarn to knit socks and kneecaps for soldiers. The wool was very oily and had a very noticeable smell. It was knitted in this raw condition and then, when the finished garment was washed, it was as white as snow. (t. 61)*

Yn olaf rhoddir sylw i gerddorion nodedig fel J. T. Rees, Bronceiro, tad y llysgennad a'r awdur T. Ifor Rees, ac i drafaelwyr a fu'n gysylltiedig â'r ardal hon — yr enwog Abram Wood a theulu Tom Macdonald y rhoes ei hunangofiant *Y Tincer Tlawd* ei enw i'n papur bro. Daw'r gyfrol i ben â bywgraffiadau byrion o rai o drigolion amlwg y fro ers y ddeunawfed ganrif, a'r rheini mor amrywiol â'r Methodist blaenllaw Evan Richardson a aned ym Mryngwyn Bach yn 1759, y Prifardd Dewi Morgan a'r brodyr Raw-Rees. Mae mwy i'w ddweud am draddodiad llenyddol y fro, fel y gwelir cyn bo hir pan gaiff Llwybr Llên Llandre ei agor gerllaw'r eglwys. Fe allai'r golygu fod wedi bod yn fwy gofalus, ond rhaid cofio na fu'r gyfrol hon drwy ddwylo un o'r gweisg mawrion ac mae'r awdur yn haeddu ein diolch am ei lafur cariad. £9.50 yw'r pris ac mae'n werth pob ceiniog, yn enwedig gan fod yr elw yn mynd, yn briodol ddigon, i goffrau Treftadaeth Llandre.

**Huw Meirion Edwards**

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY
LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

## COLOFNYDD Y MIS

### Caryl Lewis - Gadael Brest

Prin y gwyddwn pan ofynnwyd i mi 'sgwennu'r golofn hon yn *Y Tincer* y buaswn heddiw yn hel meddyliau am y ddinas sydd wedi bod yn ail gartref imi am fwy na deng mlynedd ar hugain. A minnau yn hel fy mhàc am Normandi a'i thraethau byd enwog, yn symud o un ddinas a ddinistrwyd gan fomiau'r Ail Ryfel Byd i'r llall — Caen — sy'n rhannu'r un dynged, mae'r cysylltiad cryf rhyngof â Brest yn datod fesul tipyn, er na welaf fy hun byth yn torri'r llinyn fydd yn fy nghlymu i'r pwt yma o dir ar ben draw gorllewinol Ewrop.

Mae rhai llefydd yn gafael ynoch, yn treiddio'n ddwfn o dan y croen. Trieste, Venice, Efrog Newydd, Lisbon ... I bob awdur llên trafaelio mae 'na atyniad arbennig i ddinasoedd y byd, rhyw enaid anweledig sy'n araf godi i'r wyneb ymysg y brawddegau brwdfrydig. Does neb yn dod i Frest ar hap a damwain. Mae'n rhaid bod angen dod yma. Yr hyn a glywir yn yr orsaf wrth i'r teithiwr chwilfrydig ddisgyn o'r trên yw Brest! Brest! Terminus du train! Does yr un lle pellach ar y lein. Mae Brest fel mur, neu lidiart, yn ôl yr hyn a fynnwch. Mae Brest fel Gwales a minnau bellach yn cofio'r holl foethau y bu'n fraint i mi eu profi.

Pobl Brest, les Brestois, neu gydag acen y ddinas, les Bressois. Criw byrlymus, gwresog, di-flewyn-ar-dafod, â'u hathroniaeth pennaf yn gwreiddio o'r digwyddiadau hanesyddol cyfoes a barodd i'r ddinas gael ei dinistrio'n deilchion ac i'r boblogaeth orfod trigo mewn cabanau pren wrth aros i'r ddinas newydd godi o'r lludw. Os ydych am ddeall ystyr y dywediad Carpe diem, dowch i Frest. Mae'r asbri heintus sy'n llifo i lawr y rue de Siam a'r rue Jean Jaurès ar nosweithiau Iau, Wener neu Sadwrn — gystal â dweud bob noswaith o'r wythnos — fel rhyw darian yn y meddwl er mwyn amddiffyn trigolion Brest rhag anghofio y gall bywyd gael ei gwtogi neu'i dorri'n chwap gan ffolineb rhyfel. Petai rhywun yn amau hynny, ar draws Bae Brest mae safle arfau niwclear llynges Ffrainc ar l'Ile Longue — Yr Ynys Hir — yn atgoffa'r rhai sydd â'u bryd ar glêra o un dafarn i'r llall - tirer une piste, chwedl pobl Brest — y gall y chwalfa fod yn fwy enbyd, yn fwy parhaol, y tro nesaf .

Dwi'n gallu gweld l'Ile Longue o ddwy lofft cefn fy nghartref. Gyda'r nos, mae'r goleuadau'n chwincio yn y tywyllwch fel rhes o oleuadau Nadolig ar ryw goeden wedi'i dymchwel. Ac mae'r tŷ wedi goroesi'r bomiau. Fe'i adeiladwyd yn 1938 gan ddau frawd, brodorion o Frest, a ddychwelodd ar ôl gweithio yn un o gyn-wladfeydd Ffrainc — Indochine, Cochinchine — a dylanwad dinasoedd trofannol yn amlwg yn y bensaernïaeth. Mae'r tŷ mewn stryd fach uwchben safle'r llynges. Dyna lle angorwyd llongau tanfor yr Almaenwyr yn ystod y rhyfel a dyna lle tywalltwyd tunelli o fomiau — 30,000 tunnell o'r 7fed o Awst tan y 18fed o Fedi, 1944 - o berfeddion awyrennau Prydeinig nes treiddio tyllau yn rhwydwaith glos y strydoedd. Yma ac acw, saif gweddillion tai Brest o'r amser cynt. A fy nhŷ i yn un ohonynt. O'r 11,700 adeilad ym Mrest, dim ond 1,200 a oroesodd pan ryddhawyd y ddinas o grafangau'r Natsïaid. Dywedodd un gymdoges i mi, a oedd yn hogan fach ar y pryd ac yn gwylio o ffenest ei thŷ, ei bod yn cofio gweld peilot Prydeinig yn codi llaw arni wrth i'w awyren sleifio'n isel heibio toeon y tai. Roedd yr RAF yn ymwybyddus o'r difrod a'r lladdfa a'u dilynai ac am hynny, pan oedd modd, ceisient dywallt y bomiau wrth hedfan yn isel, er mai ar berygl bywyd y gwnaethpwyd hyn.

Dwi'n byw yn Kerangoff, neu Kerango yn y Llydaweg, ac er nad wyf yn sicr o ystyr yr enw, tybiaf mai Tre'r Gofaint sydd wrth ei wraidd. Ond gwell peidio camu'n bellach ar lwybr llithrig enwau lleoedd. I mi, mae Kerango yn filltir sgwâr; mewn un congl mae marchnad les Quatre Moulins, y melinau blawd a falai'r gwenith ar gyfer y trueiniaid yn hen garchar Brest, lle dwi'n prynu llysiau a blodau bob bore Sadwrn oddi wrth hen gyfaill sydd yr un mor benboeth â minnau pan fydd tymor y rygbi am gychwyn. Mewn congl arall mae siop bysgod Raguénès, paradwys arianlliw Anne-Marie, sy'n bwydo cathod coll y ddinas o duniau dryd, er y byddai llond coflaid o bennau pysgod yn llawer mwy llesol. Dwi'n ei gweld rwan yn codi'r crancod o focs yn ei dwylo medrus, yn





eu pwyso a'u gosod yn grefftus mewn cwdyn plastig fel petai'n gosod baban i gysgu yn ei grud. Dilyn muriau mynwent Recouvrance wedyn, a dyma fi'n sefyll o flaen gardd daclus yn gymysg o lysiau a blodau — tatws, moron, ffa, pys, wyniwns a'r anfarwol farchysgall neu artichaut Camus, symbol gogledd sir Finistère, y llysieuyn sy'n wir ddantaith i'r tlawd, chwedl dyn digrif enwog, am fod na fwy yn eich plât ar ôl i chi'i fwyta na phan ddechreusoch. Mae'n draddodiad yn Llydaw tyfu llysiau a blodau hefo'i gilydd, y naill yn fwyd i'r meidrol a'r lleill yn gysur i'r meirw. Ac unwaith eto, mae hen erddi Brest yn fwrlwm o hanes y ddinas, yn adlewyrchu mordeithio brwd gwyddonwyr yr 18fed ganrif a gludai'n ôl i'r glannau hyn y camelia, y lili arwm, y ffiwsia, lili'r Affrig a ledi'r India, sy'n dal i urddo gerddi bychain Brest.

**Bu Carys Lewis, a fagwyd yn y Borth, yn dysgu Saesneg i fyfyrwyr gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Brest am bymtheng mlynedd. Mae newydd ei phenodi i swydd yn yr adran Saesneg ym Mhrifysgol Caen, Normandi.**


oriel Tir a Môr gallery
O dan y môr a'i donnau, Mae llawer dinas dlôs, Fu'n gwrando ar y clychau, Yn canu gyda'r nos...
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GAREJ CWRT
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor 8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# YSGOL PENRHYN-COCH



Disgyblion yr ysgol gyda baner yn cefnogi Gruff Lewis.

## Trawsgwlad

Cynhaliwyd Gŵyl Chwaraeon yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Aeth criw o ddisgyblion i lawr i gystadlu yn y rasys trawsgwlad cenedlaethol. Da iawn iddynt am eu hymdrechion.

## Hoci

Aeth tim hoci'r ysgol i lawr i chwarae yng nghystadleuaeth Activate ar gae astro'r Brifysgol yn Aberystwyth. Cafwyd nifer o gêmau arbennig o dda ond yn anffodus ni lwyddwyd i fynd drwodd i'r rowndiau nesaf. Da iawn i holl chwaraewyr hoci'r ysgol am eu hymroddiad yn ystod y flwyddyn wrth ymarfer a chwarae. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth ac i Miss Cory am yr hyfforddi.

## Bagiau Mary

Daeth Mr Ian Rees o Glwb Rotary Aberystwyth i sgwrsio gyda'r disgyblion am waith yr elusen gyda "Bagiau Mary." Mae'r elusen yn anelu i gasglu eitemau addysgol i greu bagiau cefn ar gyfer plant llai ffodus yn Affrica. Dangoswyd DVD i'r disgyblion ar yr effaith mae derbyn y bagiau yn ei gael ar y plant. Dilynwyd taith un bag o gartref disgybl i'r porthladd ac yna ar long yr holl ffordd i'r Affrica ac i'r disgybl lwcus. Yn ystod yr wythnos ddilynol, bu'r ysgol yn derbyn eitemau gan y disgyblion e.e. pensiliau, rwberi ayyb. Gwahoddwyd Mr Rees yn ôl i'r ysgol a chafwyd cyfle i gyflwyno'r eitemau ynghyd ag ambell i fag a lenwyd eisioes. Diolch i bawb a ddaeth ag eitemau i mewn i'r ysgol.

## Criced

Chwaraewyd gêm ragbrofol ar gyfer twrnament y cylch yn erbyn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Chwaraewyd y gêm ar gae Baker ym Mhenrhyn-coch. Cafwyd gêm dda iawn, rhwng dau dîm yn llawn brwdfrydedd. Y tîm cyntaf i fatio oedd Ysgol Gymraeg Aberystwyth a lwyddodd i sgorio 218. Tro Ysgol Penrhyn-coch oedd hi nesaf a chafwyd nifer o belawdau clos iawn. Ar ddiwedd y gêm, sgoriodd Ysgol Penrhyn-coch 238 o rediadau gan ennill drwodd i'r rowndiau terfynol. Llongyfarchiadau iddynt a diolch i Mr Lewis am ei waith wrthi yn eu hyfforddi.

## Gruff Lewis

Bu Gruff Lewis yn rasio beiciau o amgylch Aberystwyth fel rhan o daith Halfords. Er mwyn ceisio rhoi hwb lleol iddo, aeth criw o ddisgyblion wrthi i greu baner arbennig gyda chyfarchion o'r ysgol. Er yr holl dywydd gwael, llongyfarchiadau iddo.

## Pêl-droed

Bu tim pêl-droed yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament ysgolion cylch Aberystwyth ar gaeau Blaendolau yn ddiweddar. Chwaraewyd y gêmau ar ffurf cynghreiriau cyn symud ymlaen i chwarae y rowndiau cyn derfynol ac yna'r gêm derfynol. Llwyddodd y tîm i guro Ysgol Llanilar ac yna Ysgol Plas-crug a symud ymlaen i chwarae Ysgol Comins-coch yn y gêm gyn derfynol. Cafwyd gêm arbennig gyda chyfleon i'r ddau dîm a bu'n rhaid symud i amser ychwanegol wrth i'r sgôr orffen yn 0-0. Ar ddiwedd y gêm, llwyddodd Penrhyn-coch i sgorio gôl i ennill y gêm a symud i chwarae yn erbyn tîm Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn y rownd derfynol. Cafwyd gêm dda llawn cyffro yma gyda'r ddau dîm yn mynd yn agos i sgorio. Yn y diwedd, llwyddodd tîm Ysgol Gymraeg i gymryd eu cyfleon gan ennill i 2-0. Da iawn i aelodau'r tîm am eu hagwedd wrth chwarae.

## Pêl-rwyd

Aeth tîm pêl-rwyd yr ysgol i lawr i Ganolfan Plas-crug i gymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-rwyd y cylch. Cafwyd dwy gêm dda iawn. Yn anffodus, ni lwyddodd y tîm i ennill drwodd i'r rownd derfynol.

## Dodgeball

Bydd yr ysgol yn cynnal noson Dodgeball unwaith eto eleni. Bydd y cyfan yn cychwyn am 5-30 p.m. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â'r ysgol. Bydd Ffair Haf a Barbeciw i ddilyn.


Tîm hoci'r ysgol a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Activate yn ddiweddar.


Tyler, Rhys, Cerys Ann, Iestyn ac Aneurin a fu'n rhedeg yn rasys trawsgwlad cenedlaethol yr Urdd yn ddiweddar.


**CLWB CŴL**
**Penrhyn-coch**

**CLWB AR ÔL YSGOL**
Ar Agor Llun-Gwener o
3.30 y.p - 5.30 y.p.
£6 y sesiwn £5 ail blentyn
Sesiynau wrth yr awr ar gael

Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig

**CLWB GWYLIAU**
Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS
08.30 y.b. – 5.30 y.p.

£20 y diwrnod plentyn cyntaf
£18 y diwrnod ail plentyn

Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.

£10 plentyn cyntaf . £9 ail plentyn

www.facebook.com/pages/Clwb-Cwl-Penrhyn-coch-After-School-Club/235577369148?ref=ts

I fwcio cysylltwch â
Delyth James neu Katy Nash ar
07972 315392
clwbcwl@googlemail.com
Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Gwasanaethau Arbennig

Er mwyn dathlu Neges Ewyllys Da eleni cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn neuadd yr ysgol gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth y plant o'r Neges Heddwch sydd bellach yn draddodiad blynyddol ers dros hanner canrif. Eleni, fe ddaeth Efan Williams i'n plith i arwain y gwasanaeth. Efan Williams yw Swyddog Plant ac Ieuenctid Eglwysi Gogledd Ceredigion. Cyflwynodd Efan hanes a chynnwys y neges eleni.

## Eisteddfod yr Urdd

Yn hytrach na' ymlacio a mwynhau gwyliau hanner tymor bu nifer o blant ac athrawon yr ysgol yn mynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Roedd Parti Cerdd Dant yr ysgol yn perfformio ar fore Llun gyda'r bwriad i gyrraedd llwyfan y Pafiliwn yn y p'nawn. Perfformiodd y parti yn wych ac er fod y feirniadaeth yn galonogol tu hwnt; aflwyddiannus oedd y cynnig i gyrraedd y llwyfan. Hen dro!

Hoffa'r ysgol ddiolch i'r plant am eu gwaith diwyd, y rhieni am eu cefnogaeth a chan' diolch hefyd i Mrs Helen Medi Williams a Mrs Eleri Roberts am eu hyfforddiant arbennigol dros yr wythnosau diwethaf.

## Ymweliadau a digwyddiadau

Fel rhan o thema'r tymor, fe aeth plant blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad â'r dre. Yn gyntaf, cafwyd ymweliad diddorol iawn yn yr amgueddfa er mwyn deall a dysgu mwy am hanes yr ardal. Yna fe dreuliodd y plant gyfnod wrth ymyl yr harbwr er mwyn hel gwybodaeth ddaearyddol am yr ardal arbennig hon o'r dre.

## Diwrnod y 60au

Rhai diwrnodau yn ddiweddarach, fe aeth plant a staff blwyddyn 3 a 4 nôl mewn amser. Fel rhan o'u gwaith Hanes gwisgodd y plant mewn dillad o'r 60au. Cafodd y plant flas ar y cyfnod trwy fwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan orffen y dydd gyda disco yn cynnwys caneuon a cherddoriaeth o'r cyfnod cyffrous.

## Taith Gerdded

Trefnodd yr ysgol daith gerdded ar yr 20fed o Fai. Ar ôl casglu enwau noddwyr , cerddodd y plant a'r staff ar hyd lwybrau cyhoeddus yr ardal, ac yn y broses codwyd swm sylweddol o arian tuag at goffre'r ysgol. Diolch i'r noddwyr am eu cefnogaeth hael.

## Chwaraeon

Ar y 27ain o Fai, bu tîm pel-droed bechgyn a thîm pel-rwyd merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Chwaraeon Cylch Aberystwyth. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Aberystwyth oedd hon; ac yr oedd ansawdd y pêl-droed a'r pel-rwyd o'r safon uchaf.

Mewn grŵp anodd iawn chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda; ond er ymdrechu'n galed ymhob gêm, methu wnaethant i fynd ymlaen i'r rowndiau gyn-derfynol.

Ar y llaw arall, llwyddodd y merched pel-rwyd i guro Ysgol Plas-crug, Yr Ysgol Gymraeg ac Ysgol Padarn Sant. Galluogodd hyn iddynt gyrraedd y rownd derfynol. Yn y ffeinal curodd y merched Ysgol Comins Coch o 7 gôl i 1. Dyma'r pedwerydd tro o'r bron i'r ysgol ennill y gystadleuaeth hon. Campus! Llongyfarchiadau mawr i chwaraewyr y ddau dîm am eu hymdrechion ardderchog.

Ymweliad gan Faer y Dre
Braint ac anrhydedd oedd croesawu Maer newydd y dre i'r ysgol yn ddiweddar. Pwrpas yr ymweliad oedd helpu lawnsio 'Splish, Splash, Splosh'; sef ymgyrch newydd gan Apêl Arch Noa. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant grysau-T a chapiau coch tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol; ac yn y broses tynnu sylw y lawnsiad er mwyn codi arian ar draws y genedl.



Y Parti Cerdd Dant



Blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â'r Harbwr



Efan Williams yn arwain Gwasanaeth Neges Ewyllys Da



Plant blwyddyn 6 yn paratoi i dynnu llun gyda Maer y dre

## Clwb Garddio

Mae'r clwb garddio bellach yn cwrdd yn wythnosol ar ddydd Mercher o hanner awr wedi tri tan hanner awr wedi pedwar. Ar ôl cyfnodau o blannu, dyfrhau a chwynnu mae'r llysiau nawr yn barod i werthu. Mae sondin yn cael ei drefnu yn achlysurol wrth ymyl prif fynedfa'r ysgol am hanner awr wedi tri.

Ar y 26ain o Fehefin fe ddaeth ffotograffydd o gwmni Tempest i'r ysgol. Tynnwyd lluniau y dosbarthiadau, y grwpiau amrywiol a berfformiodd yn ystod y flwyddyn a thimau chwaraeon yr ysgol. Mae'r lluniau ar gael i'w harchebu nawr.

**Gwefan yr ysgol**
Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

**Clwb Cant**
Dyma ganlyniad fis Mehefin:-

Rachel West, Cae Crwth, Llandre - **£25**
Annette Lewis, Cysgod y Gwynt - **£15**
Christine Griffiths, Tynllechwedd Bach - **£10**

JONATHAN JAMES LEWIS
SAER COED
ADEILADYDD
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH
01970 880652
07773442260

# YSGOL PEN-LLWYN

## Parti Ffarwel Mrs Charlton

Ddechrau Mai ar bnawn Sadwrn braf cafwyd parti ffarwel i Mrs Christine Charlton cyn brifathrawes (bellach) Ysgol Pen-llwyn. Bu'n brifathrawes ac athrawes arbennig iawn i nifer fawr o blant aeth drwy'r ysgol a hynny am ddeunaw mlynedd. Daeth nifer dda o gyn-ddisgyblion, rhieni a chyn-athrawon yr ysgol i ddathlu gyda ni.

Cafwyd cyngerdd gan blant yr ysgol. Thema y cyngerdd oedd 'Mae gan Ben-llwyn dalent' wedi ei seilio ar y rhaglen deledu 'Britain's Got Talent'. Portreadwyd Mrs Charlton ac amryw o bobl enwog yn dda a hwyliog gan y disgyblion. Cawsom eitemau cerddorol gan gyn-ddisgyblion a disgyblion presennol yr ysgol. Darllenwyd limrigau wedi eu cyfansoddi gan Mrs L. Herschell.

Arweinyddion y prynhawn oedd Mr Elfed Lewis (cadeirydd y llywodraethwyr) a Mr Fred Williams (Y cyn-cynghorydd a llywodraethwr yr ysgol).

Diolch i Mr Eifion Evans (Y Cyfarwyddwr Addysg) a Mr Geraint Thomas am eu hanerchiadau. Bu'r ddau yn cyd-weithio â hi ar wahanol gyfnodau yn ysgolion Llwyn-yr-Eos a Thal-y-bont.

Roedd anerchiad Mrs M. Williams, oedd yn athrawes ym Mhen-llwyn am flynyddoedd mawr yn disgrifio y profiadau a gafwyd a hynny yn llawn hiwmor. Cafwyd hanes Mrs Charlton yn mynd ar goll yng Nghwmrheidol cyn y cyngerdd Nadolig un flwyddyn a hynny diolch i law mawr a'r afon wedi codi.

Roedd Mrs Charlton wedi paratoi araith drylwyr yn olrhain hanes ei gyrfa a diolchodd y staff a fu'n gweithio gyda hi yn ystod y cyfnod hwn.

Cawsom amser i ymlacio a sgwrsio uwchben te ardderchog wedi ei baratoi gan rieni Ysgol Pen-llwyn. Cyflwynwyd darlun o Aberystwyth wedi ei fframio, gemwaith Aur Clogau a blodau iddi ac fe baratowyd llyfr gyda darluniau o blant yr ysgol gan Mrs J. Nicholls. Rhaid oedd cael cacen a beth gwell na chacen Mrs J. Watson wedi ei haddurno gan Mrs S. Jenkins, Pontarfynach. Diolch hefyd i Mrs L. Herschell am addurno'r neuadd.

Rhoddodd Mrs Charlton mwy na chant y cant i'w diwrnod gwaith a hynny gyda graen a gwên ar ei hwyneb bob amser er gweithio oriau maith. Roedd bob amser yna i helpu bob un ohonom. Gwraig hynod o dalentog a allai droi ei llaw at bopeth. Amser i gerdded a mwynhau yn lle rhedeg a gweithio'n galed. Dymuniadau gorau i chi a Mr Charlton i'r dyfodol a mwynhewch eich ymddeoliad.


Ffarwelio â Mrs Christine Charlton


Perfformio'r ymgom yn y parti.



Rebecca a Laura Jones-Williams gyda Colin Charvis

## Prynhawn Agored

Cafodd y rhieni gyfle i gyfarfod â dau aelod newydd o staff yr ysgol ar Ddydd Gwener 13eg Fai sef Mr Emyr Pugh-Evans, y Prifathro a Mr Berian Lewis, y Prifathro Cynorthwyol. Wedi gwrando ar gyflwyniad byr fe gafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb. Roedd yn dda gweld nifer o'r rhai yn bresennol yn fodlon rhannu sgiliau yn yr ysgol. Os oes yna sgil neu diddordeb arbennig gyda chi i'w rannu a'r plant yna cofiwch gysylltu â'r ysgol.

## Taith gerdded

Roeddwn ni wedi mynd am daith gerdded o amgylch Capel Bangor gyda Ywain, ein athrawon, rhieni ac ein cogyddes. Fe wnaethom ddechrau cerdded o'r ysgol ar brynhawn dydd Iau ac roedd hi'n ddiwrnod heulog iawn. Braf oedd gweld pobl lleol ar ein taith.

Roedd yn rhaid gwisgo siacedi diogelwch i gadw'n saff ar ein taith. Roedd yn hwyl cerdded gyda phawb, fe wnaethom sylweddoli fod cerdded yn bwysig i gadw'n ffit ac yn iach.
Gan Haf ac Alaw (Blwyddyn 4)

## Twrnament pêl droed

Ar ddydd Gwener 27ain o Fai, fe aeth tîm o blant Ysgol Pen-llwyn i chwarae pêl-droed mewn twrnament Cylch Aberystwyth ym Mlaendolau. Yn ein tîm roedd Tomos, Gethin, Keiran, Pepe, Jo, Steffan, Nuala, Rebecca, Jack, Lorenzo, Alan, Haf ac ein rheolwr Rhodri ap Dafydd ac roedd Miss Griffiths yn helpu.

Yr ysgolion oedd yn ein grŵp ni oedd Ysgol Gymraeg, Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Myfenydd. Roedd ein gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Myfenydd ac roedd y gêm yn ddi-sgôr ar y diwedd.

Roedd ein ail gêm yn erbyn Ysgol Gymraeg ac yn anffodus y sgôr oedd colli 2-1, ond roedd hi'n agos iawn fe sgoriodd Ben Davies a Rhys Evans i Ysgol Gymraeg ac i Ysgol Pen-llwyn Gethin ap Dafydd. Roeddem yn siomedig iawn gyda'r canlyniad yma gan ei fod mor agos.

Gêm olaf oedd yn erbyn Ysgol Craig yr Wylfa ac roedd Keiran Evans wedi sgorio dau. Roedd y twrnament wedi gorffen i Ysgol Pen-llwyn ond fe wnaethom ddod yn ail yn y grŵp. Roedd ein tîm yn hapus iawn gyda'r perfformiad ac fe weithion ni'n dda fel tîm.
Gan Keiran a Gethin (Blwyddyn 6).

## Sesiwn hyfforddiant rygbi

Nos Fercher yr 8fed o Fehefin, fe aeth rhai ohonom o Ysgol Pen-llwyn i sesiwn hyfforddiant rygbi yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth. Roedd rhai o dîm rygbi Dreigiau Casnewydd Gwent yno yn helpu. Fe wnaethom ddysgu sgiliau pasio, rhedeg a taclo ac ar y diwedd chwarae gêm o rygbi. Fy nhîm i wnaeth ennill, dau gais i ddim. Ar ôl i'r hyfforddi orffen, fe aeth pawb i gael byrgyr ac i neidio ar y castell neidio. Fe gefais lawer o hwyl gyda Colin Charvis a Rhodri Gomer o dîm Dreigiau Casnewydd Gwent yn ogystal â'r ffrindiau gorau a wnes.
Gan Tomos Evans Blwyddyn 6.

## Croeso

Croeso i Mr Berian Lewis, Pennaeth Cynorthwyol ac athro Dosbarth 2. Mae'n bleser i groesawu ac mae'r plant i weld yn hapus iawn gyda fe' n barod. Fe fwynhaodd gweld y tîm criced yn fuddugol mewn gêm yn erbyn Llanafan ar ddiwedd yr wythnos gyntaf ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld perfformiad tebyg yn y gystadleuaeth ym Mlaendolau.


Coginio ar gyfer ein prynhawn agored

## Sesiynau Ioga

Rydym yn ffodus iawn i gael arbenigedd Rachel Lilley (Ioga i Bawb) yn helpu i ddysgu Ioga i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd hi gyda ni am rai wythnosau ac mae'r plant wrth eu boddau yn y sesiynau.

## Wythnos Diogelwch Bwyd

Er mwyn dathlu Wythnos Diogelwch Bwyd cawsom brynhawn o weithgareddau hwylus. Rydym yn cael y cyfle yn aml i goginio yn ein gwersi ac mae'n holl bwysig i atgyfnerthu sgiliau diogelwch mewn ffordd diogelwch.

## Bags 2 School

Rydym yn casglu dillad er mwyn codi arian ar gyfer yr ysgol. Mae gennym fagiau pwrpasol ar gyfer gwneud hyn felly gofynnwch am fag ac ewch ati i'w lenwi a'i dychwelyd cyn Gorffennaf 7fed. Croeso i chi ddefnyddio bagiau du hefyd.

## TASG Y TINCER



Craig Edwards

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r blodau hyfryd y mis diwethaf. Mae'n amlwg i chi gael hwyl yn lliwio pob pilipala a phetal. Da iawn chi. Dyma'r enwau y mis hwn: Mackenzie Byrne, Ysbryd y Gors, Y Borth; Elin Pierce Williams, Bryncastell, Bow Street; Craig Edwards, 10 Pen-llwyn, Capel Bangor; Gruff Ceiro Jones, 7 Fron Heulog, Nercwys, Sir y Fflint, Myfanwy Roberts, 4 Maes Seilo, Penrhyn-coch.

Ti, Craig, sy'n ennill y tro hwn. Roedd dy ddewis o liwiau'n dda iawn, a'r llun yn llawn o hwyl yr haf.

Ddaru chi fwynhau eich gwyliau hanner tymor? Bydd gwyliau'r haf yma mewn dim o dro, a digon o amser i fwynhau golygfeydd ardal Y Tincer. Ac er mod i wrth fy modd yn mynd i lefydd gwahanol ac ymweld â gwledydd tramor, mae digon o bethau i'w gwneud ar stepen y drws. Ydech chi wedi bod yn gwylio Springwatch ar y teledu? Braf gweld Ynys-hir yn cael sylw. Roeddwn i wrth fy modd gyda'r camera ar y we, neu'r webcam, lle roedd modd gweld yr adar ar eu nythod. Beth oedd eich hoff aderyn ar y rhaglen? Dwi'n hoff o biod y môr (oyster-catchers) â'u coesau oren, hir yn camu drwy'r tywod, ac mae digon ohonyn nhw i'w gweld yn y Borth a Chlarach. Beth yw eich hoff aderyn chi, tybed?

Rhaid sôn am Abertawe cyn cloi, wrth gwrs. Fedrwch chi ddyfalu pam? Wel, y ddinas honno oedd cartref Eisteddfod yr Urdd rai wythnosau yn ôl. Da iawn i bawb fu'n cystadlu, a gobeithio eich bod wedi cael amser da. Beth ddaru chi ei fwynhau orau ar y maes? Hoffais glywed cân Rapsgaliwn yn ystod yr wythnos! Yr ail reswm dros sôn am Abertawe yw tîm yr Elyrch, a'i lwyddiant yn curo Reading. Welsoch chi'r gêm? Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weld yr Elyrch yn curo timoedd fel Man Utd a Chelsea yn Stadiwm y Liberty dros y tymor nesaf.

Y tro hwn, lliwiwch y llun o'r ddau ffrind yn mwynhau gêm o bêl-droed? Falle eu bod nhw'n chwarae i dîm Abertawe! Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE) erbyn Medi'r 1af. Ta ta tan toc, a mwynhewch weddill tymor yr ysgol, a'r gwyliau haf. Wela'i chi ym mis Medi!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed | Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig. Teledu. Te a choffi.
Wi Fi am ddim. Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 340 | MEHEFIN 2011